------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mawrth, 17 Mehefin 2014**

Amser:
**09.00**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Fay Buckle**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8041
PublicAccounts.Committee@Wales.gov.uk

## Agenda

### 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon (09:00)

### 2 Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru (09:00-10:00) (Tudalennau 1 - 16)

Briff ymchwil

June Milligan - Cyfarwyddwr Cyffredinol, AdranLlywodraeth Leol a Chymunedau, Llywodraeth Cymru
Reg Kilpatrick - Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru
Debra Carter - Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol a Pherfformiad, Llywodraeth Cymru

### 3 Craffu mewn Llywodraeth Leol (10:00-10:15) (Tudalennau 17 - 100)

PAC(4)-17-14(papur 1)
PAC(4)-17-14(papur 2)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: (10:15)

Eitemau 5 & 6

## 5 Dulliau o weithio: Asesu dulliau o weithio (10:15-10:35) (Tudalennau 101 - 104)

PAC(4)-17-14(papur 3)

## 6 Blaenraglen Waith: Hydref 2014 (10:35-11:00) (Tudalennau 105 - 111)

PAC(4)-17-14(papur 4)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Craffu Da? Cwestiwn Da!

## Astudiaeth wella Archwilydd Cyffredinol Cymru: Craffu mewn Llywodraeth Leol

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Chris Bolton, Tim Buckle, Louise Fleet, Non Jenkins, Helen Keatley, Ena Lloyd, Huw Rees, Martin Gibson a Katherine Simmons o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo'r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilwyr penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2014

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

# Cynnwys

Mae trefniadau craffu llywodraeth leol yng Nghymru yn gwella ond mae angen i gynghorau wneud mwy i ddatblygu trefniadau craffu cyson gadarn er mwyn gwella atebolrwydd i'r cyhoedd o ran y penderfyniadau a wneir.


Crynodeb 4

Argymhellion 7

Adroddiad Manwl 8

Mae arfer craffu yn gwella, ond nid yw'r effaith y mae craffu yn ei chael bob amser yn amlwg 8

Er bod y rhan fwyaf o gynghorau o'r farn bod amgylchedd cefnogol mewn perthynas â chraffu, gall diffyg eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau gyfyngu ar effeithiolrwydd y trefniadau craffu wrth ddwyn y weithrediaeth i gyfrif 13

Mae angen gwell cynllunio, cadeiryddion mwy effeithiol a gwelliannau i ystod ac ansawdd gwybodaeth a'r defnydd a wneir ohoni er mwyn gwella trefniadau craffu ar draws cynghorau yng Nghymru 16

Yn gyffredinol, nid yw trefniadau craffu cynghorau bob amser wedi'u cysoni'n llawn â phrosesau gwella eraill cynghorau, nac yn adeiladu ar brosesau archwilio, arolygu ac adolygu allanol 21

Bydd trefniadau mwy effeithiol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a phartneriaid yn gwella prosesau craffu ac yn cynyddu atebolrwydd cyhoeddus 23

Atodiadau

Atodiad 1 - Hunanwerthusiadau a gwerthusiadau gan dimau cymheiriaid 30

Atodiad 2 - Canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol 46

# Crynodeb

'Mae craffu effeithiol yn hanfodol wrth sicrhau gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion y cyhoedd ac wrth sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud y defnydd gorau o'u harian'

Gweinidog Llywodraeth Leol, Lesley Griffiths, Tachwedd 2013

1 Mae craffu effeithiol yn bwysicach fyth wrth i wasanaethau cyhoeddus ymateb i her y sefyllfa ariannol fyd-eang tra'n parhau i geisio gwella gwasanaethau. Gall craffu effeithiol wella sail y dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau yn ogystal â sicrhau bod penderfyniadau yn dryloyw ac yn cael eu gwneud yn unol ag anghenion y gymuned leol. Mae gan graffu hefyd ran bwysig i'w chwarae wrth gyfrannu at ddatblygu polisi, wrth gynnal adolygiadau penodol ac wrth fonitro perfformiad. Mae datblygu trefniadau craffu effeithiol ar y cyd ar gyfer cydweithrediadau newydd a datblygol hefyd yn debygol o fod yn ffocws allweddol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn ystod y blynyddoedd nesaf. Bydd angen i swyddogaethau craffu barhau i ymateb hefyd i'r newidiadau a gyflwynwyd drwy Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys y gofyniad i ystyried safbwyntiau'r cyhoedd a'r gallu i sefydlu pwyllgorau trosolwg a chraffu ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau lleol.




2 Nodwyd gwendidau o ran trefniadau craffu cynghorau mewn sawl adolygiad ac adroddiad archwilio ac arolygu ers i drefniadau craffu ym maes llywodraeth leol gael eu cyflwyno yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol 2000. Er enghraifft: Adolygiad o Drefniadau Cyflenwi Gwasanaethau Awdurdodau Lleol Llywodraeth Cymru[1] yn 2006; Adroddiad Blynyddol 2010-11 Prif Arolygydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)[2]; Adroddiad Blynyddol 2009-10 Estyn[3]; a memorandwm esboniadol Llywodraeth Cymru i Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011[4].

3 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cydnabod yr angen am well trefniadau craffu a'r angen i ganolbwyntio ar dryloywder a pharodrwydd am her. Mae angen y gwelliannau hyn er mwyn sicrhau bod craffu yn chwarae rhan gwbl effeithiol wrth sicrhau bod trefniadau llywodraethu da ar waith o fewn awdurdodau lleol yng Nghymru. Am y rhesymau hyn, yn 2012, ymrwymodd yr Archwilydd Cyffredinol i gynnal Astudiaeth Wella er mwyn ystyried sut y gellid gwella trefniadau craffu mewn cynghorau yng Nghymru.

4 Roedd ein dull gweithredu mewn perthynas â'r astudiaeth hon yn arloesol ac yn wahanol i'r dull archwilio traddodiadol gan hwyluso adolygiadau cymheiriaid, dysgu a gwella 'amser real' mewn trefniadau craffu dros gyfnod o ychydig dros flwyddyn. Nod yr astudiaeth oedd helpu cynghorau i gyflawni gwelliannau parhaus mewn trefniadau craffu. Gweithiodd staff Swyddfa Archwilio Cymru gyda chynghorau i roi cyfle i'r rheini sy'n rhan o'r broses graffu nodi drostynt eu hunain lle y gallai fod angen gwneud gwelliannau i'w trefniadau eu hunain, ac i rannu gwybodaeth a phrofiad gydag eraill er mwyn dod o hyd i atebion.

1 *Ar Draws Ffiniau: Gwasanaethau Lleol yng Nghymru sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd.* Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir yn Lleol: Adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru, Llywodraeth Cymru, Hawlfraint y Goron, 2006.
2 *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd AGGCC 2010-2011,* Hawlfraint y Goron, 2012.
3 *Adroddiad Blynyddol Estyn 2009-2010.*
4 *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) - Memorandwm Esboniadol sy'n ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Memorandwm Pwerau Dirprwyedig,* Llywodraeth Cynulliad Cymru, Gorffennaf 2010.

5 Rhoddodd yr astudiaeth gyfle i gynghorau werthuso eu perfformiad eu hunain, rhannu gwybodaeth, meithrin sgiliau, sefydlu ac atgyfnerthu cydberthnasau, a nodi cyfleoedd newydd i gydweithredu â chynghorau eraill a phartneriaid. Er mwyn helpu i rannu'r hyn a ddysgwyd, datblygwyd Timau Dysgu a Gwerthuso Cymheiriaid gennym ymhob cyngor, a oedd yn cynnwys aelodau a swyddogion craffu. Bu'r timau hyn yn arsylwi ar drefniadau craffu cyngor arall ac yn eu gwerthuso. Nodir canlyniadau'r gwerthusiadau hyn gan gymheiriaid yn Atodiad 1.

6 Helpodd yr astudiaeth i lywio'r Nodweddion Allweddol Trosolwg a Chraffu Effeithiol yr oedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi'u llunio'n wreiddiol o ganllawiau arfer da a oedd yn bodoli eisoes. Ers cwblhau'r astudiaeth, datblygwyd cyfres gytûn o 'ganlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru, gyda chymorth y Ganolfan Craffu Cyhoeddus[5]. Rhestrir y nodweddion hyn yn Atodiad 2.

7 Ar 28 Tachwedd 2013, trefnwyd a chynhaliwyd cynhadledd genedlaethol, *Goleuni ar Graffu: Gwneud y mwyaf o'ch buddsoddiad* ar y cyd gan Ysgol Fusnes Caerdydd, y Ganolfan Craffu Cyhoeddus, Swyddfa Archwilio Cymru, Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Datblygwyd rhan o raglen y gynhadledd er mwyn ystyried rhai themâu cyffredin a ddaeth i'r amlwg o astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru ac i nodi ffyrdd o ymdrin â'r heriau yn y dyfodol.

8 Denodd y gynhadledd genedlaethol lawer o sylw ar gyfryngau cymdeithasol, yn enwedig drwy 'Twitter'. Gwnaeth y cyfranogwyr a'r rheini a gymerodd ran rithwir gyfraniadau a sylwadau defnyddiol a atgynhyrchwyd gennym ar amrywiol bwyntiau drwy gydol yr adroddiad.

9 Mae'r adroddiad hwn yn anelu at dynnu sylw at yr heriau a drafodwyd yn y gynhadledd ac mae'n seiliedig ar y canlynol: hunanwerthusiadau cynghorau; gwerthusiadau cymheiriaid a gynhaliwyd gan dimau o aelodau a swyddogion o gynghorau eraill; a sylwadau a gwybodaeth sydd eisoes wedi cronni gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar swyddogaethau craffu a threfniadau llywodraethu cynghorau. Mae'n nodi'r prif heriau o ran craffu mwy effeithiol, ym marn yr Archwilydd Cyffredinol, ac yn seiliedig ar amrywiol gyfraniadau i'r gynhadledd graffu genedlaethol yn amlinellu atebion posibl.

10 Yn gyffredinol, down i'r casgliad canlynol: mae trefniadau craffu llywodraeth leol yng Nghymru yn gwella ond mae angen i gynghorau wneud mwy i ddatblygu trefniadau craffu cyson gadarn er mwyn gwella atebolrwydd i'r cyhoedd o ran y penderfyniadau a wneir. Dangosodd cynghorau ymrwymiad gwirioneddol i ddysgu a gwella drwy gydol yr astudiaeth, ac mae arfer craffu pwyllgorau llawer o gynghorau wedi gwella. Fodd bynnag, erys llawer o heriau. I grynhoi, nodwyd y canlynol gennym:

a mae arfer craffu yn gwella, ond nid yw'r effaith y mae craffu yn ei chael bob amser yn amlwg;

b er bod y rhan fwyaf o gynghorau o'r farn bod amgylchedd cefnogol ar waith ar gyfer craffu; gall diffyg eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau gyfyngu ar effeithiolrwydd trefniadau craffu wrth sicrhau bod y weithrediaeth yn atebol;

5 Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn elusen annibynnol, sy'n canolbwyntio ar syniadau, ffyrdd o feddwl a'r broses o gymhwyso a datblygu polisi ac arfer er mwyn sicrhau gwasanaethau cyhoeddus atebol.

c mae angen gwell cynllunio, cadeiryddion mwy effeithiol a gwelliannau i ystod ac ansawdd gwybodaeth a'r defnydd a wneir ohoni er mwyn gwella trefniadau craffu ar draws cynghorau yng Nghymru;

ch yn gyffredinol, nid yw trefniadau craffu cynghorau bob amser wedi'u cysoni'n llawn â phrosesau gwella eraill cynghorau, nac yn adeiladu ar brosesau archwilio, arolygu ac adolygu allanol; a

d bydd trefniadau mwy effeithiol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a phartneriaid yn gwella prosesau craffu ac yn cynyddu atebolrwydd cyhoeddus.

11 Yn dilyn yr astudiaeth a'r gynhadledd graffu genedlaethol, cyhoeddodd y Comisiwn ar Ddarparu a Llywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus[6], a sefydlwyd gan Brif Weinidog Cymru, ei ganfyddiadau ym mis Ionawr 2014. Nododd adroddiad y Comisiwn fod craffu yn ffactor pwysig wrth sicrhau gwelliant, ond tynnodd sylw at y ffaith fod angen ei ddatblygu gan na chaiff pwysigrwydd sylfaenol craffu, ymhlith pethau eraill, wrth lywio gwelliant, ei gydnabod. Ymhlith argymhellion y Comisiwn roedd y canlynol:

a Rhaid cydnabod, blaenoriaethu, cynnal ac atgyfnerthu pwysigrwydd, statws a gwerth craffu yn barhaus.

b Rhaid i sefydliadau ystyried gweithgareddau craffu fel buddsoddiad er mwyn sicrhau gwelliannau ac arbedion yn y dyfodol. Rhaid iddynt sicrhau adnoddau a chymorth priodol i weithgareddau craffu.

12 Drwy gydol yr adroddiad hwn, byddwn yn cyfeirio at ddyfyniadau ac argymhellion adroddiad y Comisiwn lle y bo'n berthnasol.

6 Y Comisiwn ar Ddarparu a Llywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus - Ionawr 2014

# Argymhellion

| Argymhelliad | Partneriaid cyfrifol |
|---|---|
| A1 Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses graffu. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A2 Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A3 Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>• darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;<br>• canolbwyntio mwy ar ganlyniadau;<br>• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol; a<br>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r cyngor. | Cynghorau |
| A4 Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. | Cynghorau, staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |
| A5 Sicrhau bod cyrff adolygu allanol yn ystyried rhaglenni gwaith craffu ac allbynnau gweithgareddau craffu, lle y bo'n briodol, wrth gynllunio a chyflawni eu gwaith. | Staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |
| A6 Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A7 Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru. | Cynghorau |
| A8 Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. | Cynghorau |
| A9 Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. | Cynghorau |

Dylai'r partneriaid cyfrifol a gaiff eu henwi uchod gydweithredu wrth benderfynu sut y byddant yn ymdrin â'r argymhellion hyn yn unigol ac ar y cyd a sut y gellir cynnwys eraill; er enghraifft, Rhwydwaith Swyddogion Craffu Cymru a Phanel Cyfeirio Craffu Llywodraeth Cymru.

# Adroddiad Manwl

13 Mae'r adroddiad manwl sy'n dilyn yn ystyried yr heriau a nodir yn ein casgliadau yn fanylach, ac yn cyfeirio at atebion posibl gan ddefnyddio syniadau a ystyriwyd yn y gynhadledd genedlaethol fel man cychwyn ar gyfer gwella.

## Mae arfer craffu yn gwella, ond nid yw'r effaith y mae craffu yn ei chael bob amser yn amlwg

14 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried i ba raddau y mae gweithgareddau craffu ar waith mewn cynghorau ledled Cymru a ph'un a all cynghorau ddangos y cyfraniadau y mae'r gweithgareddau yn eu gwneud a'r effaith y maent yn ei chael.

**Y Comisiwn ar Ddarparu a Llywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus**

Fel rhan o'r gwaith i godi statws a phroffil craffu, ac ymgysylltu â dinasyddion, rhaid gwella gwelededdd allbwn a chanlyniadau gwaith craffu llywodraeth leol. – argymhelliad 31.

15 Yn ystod hydref 2012 a gwanwyn 2013, cymerodd bob cyngor yng Nghymru ran weithredol yn ein hastudiaeth gwella craffu, gan ymgysylltu'n llwyddiannus â chynghorau eraill yn ystod gwerthusiadau gan gymheiriaid a gweithdai dysgu. Sefydlwyd Timau Dysgu a Chyfnewid Cymheiriaid, yn cynnwys cynghorwyr a swyddogion, ymhob cyngor. Cyflwynodd y Timau Dysgu a Chyfnewid Cymheiriaid safbwynt allanol i gyngor arall drwy werthuso ei swyddogaeth graffu yn erbyn meini prawf a ddatblygwyd ar y cyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru a Rhwydwaith Swyddogion Craffu Cymru. Cymerodd y Timau Dysgu a Chyfnewid Cymheiriaid ran mewn gweithdai dysgu rhanbarthol hefyd.

16 Nododd staff Swyddfa Archwilio Cymru, a weithredodd fel cydgysylltwyr drwy gydol yr astudiaeth, fod y cynghorau wedi dangos ymrwymiad gwirioneddol i ddysgu a gwella drwy gydol yr astudiaeth, a bod llawer wedi parhau i weithio gyda'r cynghorau eraill er mwyn rhannu gwybodaeth i wella arfer. Mewn llawer o gynghorau, gwelodd staff Swyddfa Archwilio Cymru welliannau o ran arfer craffu yn y pwyllgorau yr aethant iddynt ers iddynt gymryd rhan yn yr astudiaeth.

17 Yn ein hadroddiad cryno cenedlaethol *Cynllunio ac Adrodd ar Welliannau Lleol yng Nghymru, Medi 2013*, nodwyd gennym fod llawer o gynghorau yn darparu gwell amrywiaeth o wybodaeth berthnasol a chyfredol i bwyllgorau craffu nag a wnaed yn y gorffennol. Mae'r duedd hon o ran amrywiaeth ac amseroldeb y wybodaeth a gaiff ei rhoi i bwyllgorau craffu yn galonogol, er y nododd yr adroddiad hefyd bod lle i wella ymhellach er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn gyson berthnasol, yn gyfredol ac yn amserol. Yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, dychwelwn at faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth ac ansawdd y wybodaeth a ddefnyddir gan bwyllgorau craffu i ymgymryd â'u gwaith.

18 Mae angen barnu gwelliannau o ran arfer craffu yn erbyn y canlyniadau sy'n deillio o'i weithgareddau. Mae'n bwysig dangos effaith craffu, yn arbennig o ystyried yr amser a'r adnoddau sylweddol a gaiff eu buddsoddi mewn swyddogaethau craffu ledled Cymru, yn ogystal â dangos y buddiannau ym maes llywodraethu, atebolrwydd a gwella sy'n gysylltiedig â chraffu effeithiol. Tynnodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth sylw at bwysigrwydd craffu effeithiol yn ei phrif araith i'r gynhadledd graffu genedlaethol gan ddatgan y canlynol: Mae craffu wrth wraidd llywodraethu effeithiol ac

atebolrwydd. Mae'n hanfodol er mwyn dangos bod awdurdodau lleol yn agored ac yn dryloyw. Roedd o blaid cynigion i fuddsoddi amser ac adnoddau ar y cyd mewn gweithgareddau craffu, ond pwysleisiodd fod angen i'r gweithgareddau hynny ychwanegu gwerth a bod craffu yn enghraifft glasurol o wasanaeth buddsoddi-i-arbed i'r sector cyhoeddus.

19 Wrth gwrs, rhaid ystyried gwerth yng nghyd-destun faint o amser ac arian a gaiff eu neilltuo i roi trefniadau craffu ar waith, ac ansawdd cyfatebol y canlyniadau sy'n deillio ohonynt. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000, a greodd swyddogaethau Gweithrediaeth a Throsolwg a Chraffu ar wahân o fewn cynghorau, yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth greu o leiaf un Pwyllgor Trosolwg a Chraffu sy'n cynnwys cynghorwyr nad ydynt yn aelodau o Bwyllgor Gweithredol, na Chabinet, y cyngor hwnnw. Nid oes unrhyw safon na rhagnodiad cenedlaethol ar y strwythur y bydd cynghorau yn ei fabwysiadu er mwyn bodloni'r gofynion deddfwriaethol hyn. Mae amrywiaeth eang o ddynodiadau a strwythurau ar waith, gan amrywio o bwyllgorau unigol i bwyllgorau lluosog â grwpiau gorchwyl a gorffen. Mae'r gwaith craffu llywodraeth leol sy'n mynd rhagddo ledled Cymru yn sylweddol, fel y gwelir yn y tabl isod.

## Pwyllgorau trosolwg a chraffu ar ddechrau blwyddyn[7] ddinesig 2013-14

| | Cyfanswm Cymru | Isaf/uchaf fesul cyngor | Cyfartaledd fesul cyngor |
|---|---|---|---|
| Nifer y pwyllgorau trosolwg a chraffu | 92 | 1 - 6 | 4.2 |
| Nifer y lleoedd ar bwyllgorau trosolwg a chraffu | 1221 | 16 - 92 | 55.5 |
| Nifer yr aelodau trosolwg a chraffu | 842 | 14 - 58 | 38.3 |

## Gweithgarwch craffu yn ystod blwyddyn ddinesig 2012-13

| | Cyfanswm Cymru | Isaf/uchaf fesul cyngor | Cyfartaledd fesul cyngor |
|---|---|---|---|
| Nifer y cyfarfodydd trosolwg a chraffu | 827 | 8 - 63 | 37.6 |
| Nifer y grwpiau gorchwyl a gorffen | 107 | 0 - 18 | 4.9 |
| Nifer cyfarfodydd y grwpiau gorchwyl a gorffen | 573 | 3 - 200 | 26.0 |
| Nifer y penderfyniadau gweithredol a gafodd eu 'galw i mewn' | 27 | 0 - 6 | 1.2 |

7 Y cyfnod rhwng cyfarfodydd Blynyddol Llawn y Cyngor.

20 Swm yr uwch gyflog sy’n daladwy i gadeirydd pwyllgor trosolwg a chraffu ar gyfer 2013-14 yw £21,910 (gan gynnwys cyflog sylfaenol o £13,175 sy’n daladwy i holl aelodau prif gynghorau). Felly, gan dybio y telir uwch gyflog drwy gydol blwyddyn ddinesig 2013-14 i gadeirydd pob un o’r 92 o bwyllgorau a oedd yn bodoli ar ddechrau blwyddyn ddinesig 2013-14, byddai hyn yn dod i gyfanswm o tua £803,000 ychwanegol.

21 Yn ogystal â’r adnoddau sy’n ymwneud yn uniongyrchol â chyfranogiad aelodau mewn gweithgareddau craffu, mae cynghorau hefyd yn gwario adnoddau ar agweddau ar gymorth craffu, gan gynnwys amser swyddogion a chymorth gweinyddol ar gyfer cyfarfodydd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i wario £360,000 rhwng 2012-13 a 2014-15 er mwyn helpu’r Ganolfan Craffu Cyhoeddus i roi rhaglen waith bwrpasol ar waith i hwyluso trefniadau craffu yng Nghymru. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £300,000 yn ystod yr un cyfnod i gefnogi trydydd cam y Gronfa Datblygu Gwaith Craffu yng Nghymru. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru, o dan un o brosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop, sef Prosiect y Bwrdd Gwasanaethau Lleol - Datblygu a Chyflawni Blaenoriaethau, yn talu cost secondiad mewnol i roi cyngor ymarferol ar gyflawni ei rhaglen gymorth ym maes craffu, gyda ffocws ar graffu ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol a datblygu trefniadau craffu cydweithredol. Yn olaf, mae Llywodraeth Cymru yn darparu grant gwella i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (£1.7 miliwn yn 2013-14), y mae rhywfaint ohono wedi’i glustnodi i helpu swyddogion ac aelodau i ddarparu swyddogaeth graffu effeithiol.

22 Er gwaethaf yr holl fuddsoddiad hwn, a gwelliannau dilynol o ran ansawdd arfer craffu, nid yw effaith gwaith craffu bob amser yn amlwg ac anaml y caiff ei chofnodi. O blith yr 20 o gynghorau a ymatebodd i un o gwestiynau’r astudiaeth ar effaith eu hunanwerthusiadau, roedd y mwyafrif o’r farn bod gwaith craffu yn cael effaith gadarnhaol neu sylweddol. Fodd bynnag, roedd wyth allan o’r 20 o gynghorau o’r farn mai dim ond yn rhannol yr oedd hyn yn wir. Roedd timau gwerthuso cymheiriaid yn llai cadarnhaol o ran pa un a oedd cynghorau yn gallu dangos effaith gwaith craffu. Mae hyn yn gyson ag Arolwg Blynyddol y Ganolfan Craffu Cyhoeddus o gynghorau yng Nghymru a Lloegr yn 2012-13, lle, mewn ymateb i’r cwestiwn: ‘Yn eich barn chi, faint o wahaniaeth y mae gwaith craffu yn ei wneud i fywydau pobl?’ dim ond tri o blith 18 o ymatebion o Gymru a atebodd ‘llawer’, atebodd 10 gan ddweud ‘ychydig’, pedwar gan ddweud ‘ychydig iawn’ ac un gan ddweud ‘dim’[8].




23 Arsylwyd enghreifftiau gennym hefyd o bwyllgorau’n methu â llunio casgliadau ac argymhellion clir, ynghyd ag achosion o ddiffyg ‘crynhoi’, neu sefyllfaoedd lle na neilltuwyd digon o amser i drafod casgliadau ac argymhellion posibl. Roedd rhai o’r meysydd ar gyfer gwella a nodwyd o fewn hunanwerthusiadau terfynol cynghorau yn cynnwys: yr angen i bwyllgorau craffu gynllunio prosiectau a phennu cwmpas gweithgarwch craffu yn well gan ystyried canlyniadau; a’r angen i bwyllgorau craffu nodi argymhellion neu ganlyniadau clir o’u gwaith.

8 Yr opsiynau oedd 1. Dim. 2. Ychydig iawn. 3. Ychydig. 4. Llawer.

Cyflwynwyd un enghraifft o ganlyniad cadarnhaol yn deillio o waith craffu gan Dave McKenna, Rheolwr Craffu yng **Nghyngor Dinas a Sir Abertawe**, yn y gynhadledd graffu genedlaethol. Arweiniodd y gwaith a wnaed gan Fwrdd Trosolwg a Chraffu Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Abertawe at sefydlu cynllun mentora cyfoedion ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal gan bobl a oedd wedi gadael gofal yn y gorffennol. Arweiniodd y cynllun hwn at ganlyniad cadarnhaol i'r rheini a gafodd eu mentora ond hefyd i'r mentoriaid a enillodd gymhwyster achrededig. Roedd Dave am ddangos bod craffu yn broses sy'n cynnwys nifer o gamau ac os cewch bob un o'r camau hynny'n iawn, yna gall arwain at ganlyniad gwirioneddol dda. Gellir gweld clip fideo o Dave yn egluro'r enghraifft hon gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol.

Dave McKenna

*Dave McKenna link - http://vimeo.com/94525623*

24 Mae rhai mesurau ymarferol y gall cynghorau eu rhoi ar waith er mwyn annog pwyllgorau craffu i ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Gallai'r rhain gynnwys:

- a nodi canlyniadau disgwyliedig yn glir yn ystod y cam dewis pynciau;
- b ystyried pa ddull o weithgaredd craffu sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf;
- c sicrhau bod adroddiadau a gaiff eu cyflwyno i bwyllgorau craffu yn amlinellu'n glir rôl fwriadedig y pwyllgor craffu; a
- ch nodi'r opsiynau sydd ar gael i'r pwyllgor wrth iddo lunio ei gasgliadau.

25 Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus wedi datblygu cyngor ac arweiniad ymarferol i helpu cynghorau i ganolbwyntio ar allbynnau a mesur effaith craffu.

cfps Centre for Public Scrutiny
*accountability, transparency, involvement*

**Y Ganolfan Craffu Cyhoeddus – dull gweithredu 'Adenillion ar Fuddsoddiad'**

Yn seiliedig ar y cysyniad o 'adenillion ar fuddsoddiad', mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus wedi datblygu modelau a all helpu i ddatblygu rhaglenni gwaith sy'n dangos gwerth ac effaith gweithgareddau craffu yn well. Gall dull mwy strwythuredig o ddewis pynciau a methodolegau priodol helpu i sicrhau y caiff yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau craffu eu defnyddio i sicrhau cymaint o fudd â phosibl.

Mae dysgu gweithredol drwy gymhwyso adnoddau adenillion ar fuddsoddiad mewn ffordd ymarferol wedi dangos bod gwaith craffu yn cael effaith fwy cadarnhaol pan gaiff canlyniadau eu hystyried yn ofalus yn ystod pob cam o'r broses. Yn hanfodol, mae hyn yn cynnwys amcangyfrif a gwerthuso effaith fesuradwy argymhellion craffu ar ddechrau'r broses fel rhan allweddol o'r gwaith o ddatblygu'r 'achos busnes' dros graffu. At hynny, canfu ymarferwyr sydd wedi cymhwyso methodolegau adenillion ar fuddsoddiad yn eu maes hefyd fod nodi mesurau proses a chanlyniad yn arwain at well dealltwriaeth o gymunedau lleol drwy driongli straeon lleol â data a phatrymau cenedlaethol a rhoi cyfle i grwpiau ymylol leisio barn fel rhan o adolygiadau.

Mae cyhoeddiad y Ganolfan Craffu Cyhoeddus 'Tipping the Scales' (2011) yn darparu cyngor ac arweiniad ymarferol ar ddulliau adenillion ar fuddsoddiad yn seiliedig ar brofiadau pump Ardal Datblygu Craffu. Mae 'Valuing Inclusion' (2012) yn mireinio dulliau adenillion ar fuddsoddiad ac yn canolbwyntio ar ymgysylltu fel rhan hanfodol o'r model sy'n galluogi aelodau a swyddogion craffu i gyfarfod yn uniongyrchol ag aelodau cymunedau lleol a gwrando ar eu profiadau a'u harbenigedd.

Ar hyn o bryd, mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn nhrydedd flwyddyn ei rhaglen cymorth craffu i awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n anelu at atgyfnerthu gallu ac adnoddau er mwyn craffu'n effeithiol ar wasanaethau cyhoeddus yng nghyd-destun diwygio'r sector cyhoeddus a chaledi ariannol parhaus.

*Dolenni - www.cfps.org.uk/publications?item=7137&offset=25*
*www.cfps.org.uk/publications?item=7303&offset=0*

26 Mae hefyd yn bwysig bod aelodau craffu yn egluro'r rhesymau pam eu bod wedi gofyn am wybodaeth ac adroddiadau. Yn yr un modd, os bydd swyddogion yn awgrymu y dylai pwyllgor craffu ystyried eitemau, dylent sicrhau bod rhesymeg glir dros wneud hynny. Bydd datblygu mesurau mwy cadarn a all ddangos effaith gwaith craffu yn dasg fwy heriol. Mae cytuno ar gyfres o nodweddion a chanlyniadau craidd yn fan cychwyn da ar gyfer cyflawni hyn.

27 Gallai hunanwerthusiadau cadarn o swyddogaethau craffu hefyd helpu i sicrhau bod gwaith craffu yn canolbwyntio'n ddigonol ar ganlyniadau. Cyfeiriodd nifer o gynghorau at gynnal rhyw fath o hunanwerthusiad o'u swyddogaethau craffu. Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd yn cynnwys: llunio adroddiad blynyddol ar graffu; diwrnod 'cwrdd i ffwrdd' i gadeiryddion; a phwyllgorau yn cynnal gwerthusiad o'u perfformiad eu hunain ar ôl pob cyfarfod. Mae cynghorau wedi croesawu'r ffaith bod astudiaeth yr Archwilydd Cyffredinol wedi hwyluso'r broses hunanwerthuso gan gydnabod y dylid datblygu'r maes ymhellach a'i gynnwys o fewn eu gwaith.

**Nodweddion Allweddol Trosolwg a Chraffu Effeithiol**

Mae Rhwydwaith Swyddogion Craffu Cymru, gyda chymorth y Ganolfan Craffu Cyhoeddus, wedi datblygu cyfres o nodweddion allweddol y gall cynghorau ymrwymo iddynt wedi'u hanelu at gyflawni 'canlyniadau gwell', 'penderfyniadau gwell' ac 'ymgysylltu gwell'. Bu staff Swyddfa Archwilio Cymru yn rhan o'r broses o ddatblygu'r canlyniadau a'r nodweddion ar amrywiol adegau ac maent o'r farn eu bod yn darparu disgrifiad defnyddiol iawn o graffu effeithiol. Fe'u nodir yn Atodiad 2.

Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus
Commission on Public Service Governance and Delivery

**Y Comisiwn ar Ddarparu a Llywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus**

Rhaid i sefydliadau fabwysiadu dull 'arfer gorau' ar graffu, nid gwneud 'y lleiafrif angenrheidiol'. Rhaid i'r allbynnau craffu a'r nodweddion sy'n cael eu paratoi gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus gael eu datblygu mewn trafodaeth gyda sefydliadau sector cyhoeddus eraill. Unwaith y byddent wedi eu cytuno arnynt, rhaid iddynt gael eu mabwysiadu gan bob sefydliad o fewn 6 mis. – argymhelliad 32.

## Er bod y rhan fwyaf o gynghorau o’r farn bod amgylchedd cefnogol mewn perthynas â chraffu, gall diffyg eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau gyfyngu ar effeithiolrwydd y trefniadau craffu wrth ddwyn y weithrediaeth i gyfrif

28 Mae’r rhan hon o’r adroddiad yn ystyried y diwylliant y mae trefniadau craffu yn gweithredu o’i fewn, y gwerth a roddir arno, ac ansawdd y cymorth, y strwythurau a’r prosesau mewn cynghorau. Mae’n seiliedig ar gymysgedd o hunanwerthusiadau gan y cynghorau eu hunain, arsylwadau gan dimau dysgu cymheiriaid, ac arsylwadau archwilio a gwybodaeth gronedig.

Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus
Commission on Public Service Governance and Delivery

**Y Comisiwn ar Ddarparu a Llywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus**

Rhaid i bob aelod etholedig, aelodau annibynnol o fyrddau iechyd, cyfarwyddwyr anweithredol a swyddogion gydnabod pwysigrwydd a gwerth craffu wrth wella gwasanaethau i bobl a sefydliadau yng Nghymru. Rhaid pwysleisio a diogelu annibyniaeth gweithgareddau craffu, felly hefyd eu natur adeiladol a chadarnhaol hanfodol.

Yn yr un modd, rhaid i aelodau gweithredol, cyfarwyddwyr anweithredol a swyddogion gydnabod gwerth craffu wrth eu helpu i ddarparu gwasanaethau yn well. Rhaid iddynt roi cyhoeddusrwydd i’w penderfyniadau a’u hegluro’n glir, a gwahodd pobl i graffu arnynt, gan gynnwys trefniadau ar gyfer craffu cyn gwneud penderfyniadau, mewn ffordd barod ac agored. Rhaid iddynt hefyd gydnabod adroddiadau craffu yn brydlon ac ymateb iddynt yn ffyddiog. - argymhelliad 31.

29 Roedd hunanwerthusiadau cynghorau yn gymharol gadarnhaol o ran pa mor dda roedd rôl craffu yn cael ei deall, ei gwerthfawrogi a’i chefnogi. Nododd sawl cyngor nifer o gyfraniadau gan bwyllgorau craffu i bolisïau a phenderfyniadau a’r agwedd gadarnhaol tuag at graffu. Cred y rhan fwyaf o gynghorau fod y gydberthynas rhwng pwyllgorau trosolwg a chraffu, y weithrediaeth ac uwch swyddogion yn cefnogi gwaith craffu effeithiol. Roedd rhai o’r agweddau cadarnhaol a nodwyd yn cynnwys:

a datblygu prosesau craffu cyn gwneud penderfyniadau;

b aelodau’r cabinet ac uwch swyddogion yn cyfeirio materion a phenderfyniadau yn uniongyrchol i bwyllgorau craffu;

c aelodau’r cabinet ac uwch swyddogion yn cymryd rhan mewn sesiynau cynllunio gwaith ar gyfer pwyllgorau craffu; a

ch bodolaeth protocolau/disgrifiadau rôl yn nodi sut y dylai pwyllgorau craffu, aelodau’r cabinet ac uwch swyddogion gydweithio.

30 Fodd bynnag, roedd rhai cynghorau a chymheiriaid arsylwi o’r farn y gellid gwella’r gydberthynas rhwng pwyllgorau craffu ac aelodau’r cabinet. Hefyd, drwy arsylwi ar bwyllgorau, nodwyd gennym nad yw’r gydberthynas rhwng y weithrediaeth a’r pwyllgor craffu bob amser yn eglur. Mewn rhai cynghorau, gwahoddwyd aelodau’r cabinet i fynychu rhai o gyfarfodydd y pwyllgor craffu er mwyn ateb cwestiynau neu roi safbwyntiau ar faterion allweddol, ac roedd rhaniad amlwg o ran y rolau yr oedd unigolion yn ymgymryd â hwy yn y cyfarfodydd hyn. Mewn cynghorau eraill, nid oedd aelodau’r cabinet yn bresennol yng nghyfarfodydd y pwyllgor craffu, neu os oeddent yn bresennol, nid oeddent yn cymryd rhan yn y cyfarfodydd ac nid oedd yn ymddangos fel petai ganddynt unrhyw rôl eglur.

31 Gall fod dryswch ynghylch rôl pwyllgorau craffu wrth ddwyn y weithrediaeth i gyfrif o fewn cynghorau lle nad yw'r rolau a'r cyfrifoldebau hynny wedi'u nodi'n ddigon eglur. Nid yw pwyllgorau craffu yn debygol o ddwyn y weithrediaeth i gyfrif yn effeithiol os mai anaml y caiff aelodau'r cabinet eu gwahodd i gyfarfodydd y pwyllgor craffu i ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth. Dylai cynghorau sicrhau bod rôl aelodau'r cabinet yng nghyfarfodydd pwyllgorau craffu yn eglur er mwyn sicrhau bod atebolrwydd yn glir ac y gellir cyflwyno her adeiladol yn hwylus heb danseilio annibyniaeth y broses graffu. Dylai pwyllgorau craffu hefyd sicrhau eu bod yn deall yn eglur y rhesymau pam yr hoffent i aelodau'r cabinet ddod i gyfarfodydd cyn eu gwahodd i'r cyfarfodydd hynny.

32 Lle ceir diffyg eglurder o ran rolau a swyddogaethau, mae'n debygol na chaiff gwerth gweithgareddau craffu fel rhan o'r broses ddemocrataidd a dwyn y weithrediaeth i gyfrif ei werthfawrogi'n llawn.

**'Sicrhau atebolrwydd - goblygiadau a chanlyniadau'**

Un o brif lefarwyr y gynhadledd graffu genedlaethol oedd Peter Watkin Jones, sef cyfreithiwr ymchwiliad cyhoeddus Ymddiriedolaeth Sylfaen y GIG Canol Swydd Stafford. Rhoddodd Peter anerchiad diddorol ar bwysigrwydd diwylliant atebolrwydd cryf a'r angen i swyddogion anweithredol ac aelodau craffu ddilysu a herio'r sicrwydd a roddwyd iddynt er mwyn sicrhau atebolrwydd priodol.

Ceir dolen i allbwn y gynhadledd a syniadau Peter yma.

*Dolen - http://goodpracticeexchange.wordpress.com/2014/01/10/scrutiny-beyond-boundaries/*

33 Dangosodd hunanwerthusiadau cynghorau safbwyntiau cymysg o ran y cymorth a geir gan swyddogion ar draws y Cyngor, a dim ond ychydig o dan hanner y cynghorau oedd o'r farn mai dim ond yn rhannol yr oedd hyn yn ategu gwaith craffu effeithiol. Cydnabu nifer fach o gynghorau hefyd yr angen i wella dealltwriaeth o rôl craffu ymhlith swyddogion, ac roedd rhai o'r meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn yr hunanwerthusiadau yn ymwneud â phresenoldeb swyddogion mewn cyfarfodydd. Drwy arsylwi ar bwyllgorau craffu, nodwyd gennym fod rôl uwch swyddogion o ran craffu fel pe bai'n aneglur mewn rhai cynghorau. Roedd rhai cynghorau wedi nodi rolau a chyfrifoldebau swyddogion yn glir, ac roedd swyddogion yn cael gwahoddiad i ddod i gyfarfodydd y pwyllgor er mwyn ateb cwestiynau a chyflwyno adroddiadau neu dystiolaeth. Cafwyd nifer o arsylwadau gan dimau cymheiriaid hefyd a nododd fod swyddogion yn bresennol drwy gydol cyfarfodydd pwyllgorau heb unrhyw reswm amlwg. Pryder arall a nodwyd yw cysondeb pwyllgorau craffu wrth ddefnyddio arbenigedd swyddogion.

34 O ystyried yr arsylwadau hyn, mae'n bwysig i gynghorau fyfyrio ar rôl uwch swyddogion yn y broses graffu er mwyn sicrhau y defnyddir amser swyddogion yn y ffordd fwyaf effeithiol. Dylai pwyllgorau fanteisio'n briodol ar arbenigedd a gwybodaeth swyddogion wrth gyflawni eu rôl graffu, tra'n sicrhau bod prosesau craffu yn parhau i gael eu harwain gan aelodau'r pwyllgorau craffu. Cafwyd gennym fod cynghorau lle roedd swyddogion yn cael gwahoddiad i fynychu cyfarfodydd ar gyfer eitemau penodol fel 'tystion' i ateb cwestiynau, yn hytrach na mynychu cyfarfodydd llawn fel aelodau o'r pwyllgor fwy neu lai, yn helpu i annog cwestiynau mwy effeithiol a phenodol ac atgyfnerthu rolau gwahanol aelodau'r pwyllgor craffu, uwch swyddogion ac aelodau gweithredol. Mae gan swyddogion cymorth craffu penodedig ran allweddol i'w chwarae wrth helpu

pwyllgorau craffu i gynllunio ar gyfer cyfraniadau swyddogion ac i gysylltu â'r swyddogion hynny er mwyn sicrhau bod y pwyllgorau yn gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddynt.

### Egluro priod rolau o ran trosolwg a chraffu

Drwy nodi rolau cadeiryddion craffu, pwyllgorau craffu, aelodau'r cabinet a swyddogion yn y broses trosolwg a chraffu yn glir, ni ddylai fod unrhyw amwysedd na gorgyffwrdd a dylid gallu gwneud cyfraniadau priodol ac amserol. Mae sicrhau bod 'Canllaw Trosolwg a Chraffu' ar gael ar wefannau cynghorau yn ffordd effeithiol i gynghorau gyfleu rolau wedi'u diffinio'n glir i'r cyhoedd. Ar hyn o bryd, mae gan naw cyngor yng Nghymru ganllawiau sydd ar gael i'r cyhoedd drwy eu gwefannau, ac mae gan bump ddolenni ar eu gwefannau sydd wedi torri neu nad ydynt yn gyfredol. Mae'r canllawiau a luniwyd gan Gyngor Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn nodi eu priod rolau craffu yn glir. Mae enghreifftiau o'r tu allan i Gymru fel y canllaw a ddatblygwyd gan Fwrdeistref Merton yn Llundain (scrutiny_handbook_2011-3.pdf) a Chyngor Sir Caerlŷr (overviewandscrutinyguide.pdf), hefyd yn werth eu hystyried.

*Dolenni - www.merton.gov.uk/council/decision-making/scrutiny_handbook_oct_2011-3.pdf*

*www.leics.gov.uk/overviewandscrutinyguide.pdf*

35 Mae nifer y swyddogion sy'n cefnogi gwaith craffu yn uniongyrchol yn amrywio rhwng cynghorau, ac mae gan rai swyddogion rolau ychwanegol heblaw am gymorth craffu. Roedd rhai sylwadau o fewn hunanwerthusiadau terfynol cynghorau yn cydnabod bod adnoddau yn gyfyngedig. Dim ond un sylw a gyfeiriodd yn benodol at ostyngiad diweddar yn lefel yr adnoddau ar gyfer cymorth craffu ac awgrymodd rhai cynghorau fod timau wedi cael eu hatgyfnerthu'n ddiweddar neu eu bod ar fin cael eu hatgyfnerthu. Nododd rhai cynghorau sawl ffordd y gallai swyddogion roi cymorth mwy effeithiol, gan gynnwys helpu i ddatblygu llinellau ymholi a gwella ansawdd y wybodaeth a'r gwaith ymchwil a ddarperir i bwyllgorau craffu. Dengys tystiolaeth o arolygon blynyddol y Ganolfan Craffu Cyhoeddus gyswllt clir rhwng lefel y cymorth craffu penodedig ac effeithiolrwydd pwyllgorau craffu wrth gyflawni eu rôl. Cydnabu'r Comisiwn ar Ddarparu a Llywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus fod yn rhaid atgyfnerthu gallu ac adnoddau pwyllgorau craffu i lywio gwelliant, a bod yn rhaid sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i bwyllgorau craffu a digon o gymorth ar lefel swyddogion.

Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus
Commission on Public Service Governance and Delivery

**Y Comisiwn ar Ddarparu a Llywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus**

Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod cefnogaeth berthnasol ar gael, ar lefel swyddogion, i ddatblygu a chydlynu cynlluniau craffu, adnabod diffygion mewn arbenigedd ar y pwyllgorau a darparu gwybodaeth gymesur a dealladwy i aelodau pwyllgorau.

Rhaid i hyfforddiant gorfodol gael ei ddarparu i holl aelodau a chadeiryddion pwyllgorau craffu llywodraeth leol. – argymhelliad 32.

36 Mae sicrhau bod yr unigolion sy'n rhan o'r broses graffu yn meddu ar y sgiliau a'r cymwyseddau priodol yn elfen allweddol o baratoi ar gyfer gwaith craffu effeithiol. Nid yw hyn wedi'i gyfyngu i'r rheini sy'n ymwneud â chefnogi a rhoi gwybodaeth i bwyllgorau craffu, ond mae hefyd yn berthnasol i graffwyr. Mae llawer o gynghorau o'r farn bod hyfforddiant i aelodau craffu sy'n canolbwyntio ar angen yn ategu gwaith craffu effeithiol mewn ffordd gadarnhaol a gwnaethant gyfeirio at amrywiaeth o hyfforddiant a ddarparwyd. Er bod timau archwilio lleol wedi

gweld tystiolaeth o rywfaint o sgiliau craffu cadarn megis sgiliau cadeirio a sgiliau cwestiynu, cafwyd enghreifftiau hefyd lle nad oedd y sgiliau hyn mor amlwg a lle roedd angen eu gwella. Yn eu hunanwerthusiadau terfynol, nododd rhai cynghorau fod hyfforddiant yn allweddol er mwyn gwella gwaith craffu, a chydnabu nifer o gynghorau yr angen i ddatblygu hyfforddiant mwy penodol yn seiliedig ar anghenion unigolion. Mae rhywfaint o'r diffyg eglurder a amlygwyd yn gynharach mewn perthynas â'r rôl graffu o fewn trefniadau llywodraethu cynghorau, a phriod rolau uwch swyddogion ac aelodau'r cabinet, hefyd yn awgrymu bod angen hyfforddiant a datblygiad pellach mewn rhai cynghorau.

37 Yn ystod yr astudiaeth, cydnabu'r timau dysgu a gwerthuso cymheiriaid, er mwyn helpu i ddatblygu trefniadau craffu effeithiol, bod angen i gynghorau sicrhau bod hyfforddiant a datblygiad yn seiliedig ar nodi anghenion hyfforddiant unigol. Mae'r anghenion hyfforddiant hyn yn cynnwys datblygu sgiliau craffu megis holi, dadansoddi a chadeirio, yn ogystal â helpu aelodau craffu i feithrin eu gwybodaeth am y pwnc/meysydd gwasanaeth y maent yn craffu arnynt. Cydnabuwyd hefyd nad yw gweithgarwch datblygu wedi'i gyfyngu i 'hyfforddiant', ac y gellid ei ehangu i ganolbwyntio ar weithgareddau dysgu a datblygu ehangach. Er enghraifft, gallai rhai meysydd posibl i'w datblygu gael budd o ryngweithio a chydweithredu 'ar y swydd' rhwng aelodau a swyddogion yn hytrach na hyfforddiant 'sgiliau' ffurfiol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, cydweithio i bennu cwmpas adolygiad neu arsylwi cyfarfodydd tîm cyfarwyddiaethau o ran adolygiadau perfformiad.




38 Mae Cronfa Datblygu Craffu Llywodraeth Cymru yn cefnogi prosiect ar hyn o bryd i nodi anghenion hyfforddiant a sgiliau Swyddogion Craffu ac wedyn i roi atebion hyfforddiant achrededig wedi'u teilwra'n arbennig ar waith. Caiff yr hyfforddiant ei ddatblygu a'i ddarparu gan Brifysgol De Cymru. Dechreuodd y rhaglen ym mis Hydref 2013 a daw i ben ym mis Mehefin 2014. Mae'n cwmpasu tri modiwl:

a Ymwybyddiaeth Wleidyddol;

b Craffu ac Adolygu/Deall a Herio Perfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus; a

c Llywodraethu a Chraffu.

## Mae angen gwell cynllunio, cadeiryddion mwy effeithiol a gwelliannau i ystod ac ansawdd gwybodaeth a'r defnydd a wneir ohoni er mwyn gwella trefniadau craffu ar draws cynghorau yng Nghymru

39 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried ansawdd gweithgareddau pwyllgorau craffu. Yn arbennig, mae'n ystyried y broses o flaenraglennu gwaith a nodi pynciau i graffu arnynt a rôl bwysig rhag-gyfarfodydd a'r cadeirydd o ran trefniadau craffu effeithiol.

## Mae dewis pynciau priodol a'r dull cywir yn hanfodol er mwyn craffu'n effeithiol

40 Mae dewis pynciau priodol i graffu arnynt, o dan arweiniad aelodau craffu gyda chymorth gan swyddogion ac yn unol â meini prawf dewis clir, yn elfen allweddol o'r broses o baratoi ar gyfer craffu effeithiol. Mae dewis y dull priodol ar gyfer gweithgarwch craffu yr un mor bwysig, er enghraifft, penderfynu pa un a ddylid ystyried pynciau drwy grŵp gorchwyl a gorffen neu bwyllgor llawn.

41 Roedd pob cyngor, fwy neu lai, o'r farn bod eu prosesau cynllunio gwaith yn effeithiol, gyda llawer o gynghorau yn datgan bod dewis pynciau'r aelodau yn briodol. Fodd bynnag, nid oedd cynghorau mor gadarnhaol o ran i ba raddau yr oedd rhaglenni gwaith yn gytbwys ac yn cynnwys ffocws priodol, nac o ran i ba raddau yr oeddent yn cael eu datblygu yn dilyn proses o ymgynghori â'r cyhoedd a phartneriaid, a thrwy drafod gydag uwch swyddogion ac aelodau gweithredol.

42 Dylai cynghorau sicrhau bod cynnwys blaenraglenni gwaith yn seiliedig ar feini prawf cadarn gyda rhesymeg glir dros y pynciau a ddewisir ac y rhoddir ystyriaeth ddigonol i'r dull craffu, yn hytrach na dim ond y broses o ddewis pynciau. Dylai'r graddau y mae pwyllgorau craffu yn debygol o gael effaith yn y maes a ddewiswyd ganddynt fod yn faen prawf allweddol ar gyfer dewis pynciau a'r dull craffu. Gall amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth helpu i lywio'r broses o ddewis rhaglenni gwaith craffu. Mae ffynonellau gwybodaeth yn cynnwys: safbwyntiau uwch swyddogion, aelodau'r cabinet a dinasyddion; newidiadau polisi pwysig; materion perfformiad; risgiau; a phryderon arolygwyr a rheoleiddwyr. Dylai'r amser sydd ar gael i ymgymryd â gweithgarwch craffu, gan gynnwys amser aelodau, fod yn ystyriaeth allweddol arall i bwyllgorau craffu. Dylid rhaglennu eitemau mewn ffordd amserol, er enghraifft, er mwyn annog gwaith craffu cyn gwneud penderfyniadau lle y byddai hyn yn ychwanegu gwerth. Er mwyn helpu i sicrhau bod gwaith craffu yn cael effaith, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i bwyllgorau craffu gydbwyso awydd i ystyried nifer fawr o bynciau â'r tebygolrwydd y ceir effaith fwy drwy ganolbwyntio'n fanylach ar nifer lai o eitemau.

43 Nododd cynghorau rai diffygion cyffredin mewn perthynas â blaenraglennu gwaith. Roedd y rhain yn cynnwys:

- a i ba raddau roedd rhaglenni gwaith yn canolbwyntio ar ganlyniadau;
- b y ffaith bod prosesau cynllunio gwaith wedi'u llywio'n ormodol gan swyddogion;
- c y ffaith bod agendâu cyfarfodydd rhai pwyllgorau yn cynnwys gormod o eitemau;
- ch i ba raddau roedd y cyhoedd yn cael eu cynnwys wrth ddewis pynciau;
- d cysoni â blaenraglenni gwaith y cabinet er mwyn sicrhau y gallai gweithgareddau craffu gyfrannu at wella polisïau arfaethedig neu bolisïau sy'n bodoli eisoes.

44 Defnyddir grwpiau gorchwyl a gorffen, neu grwpiau cyfatebol, sy'n aml yn cynnwys grŵp llai o aelodau craffu sy'n mynd ati i ystyried pwnc penodol yn fanwl, mewn sawl cyngor i gynnal adolygiadau manwl. Thema allweddol ar gyfer gwella a nodwyd yn hunanwerthusiadau sawl cyngor yw'r angen i atgyfnerthu sail y dystiolaeth ar gyfer yr adolygiadau hyn, gan gynnwys mwy o ddefnydd o ddata, gwybodaeth feincnodi neu ehangu seiliau tystiolaeth er mwyn casglu safbwyntiau ehangach.

45 Gall trefniadau effeithiol ar gyfer dewis pynciau a chynllunio yn ystod y cam dewis prosiectau helpu i nodi'r dystiolaeth sydd ei hangen a sut y gellir ei chasglu, gan gynnwys ystyried y ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael a'r ffordd fwyaf priodol o gasglu amrywiaeth o safbwyntiau. Oherwydd y goblygiadau posibl o ran adnoddau, mae'n bwysig sicrhau y rhoddir ystyriaeth ofalus i'r pynciau a ddewisir a'r dull a ddefnyddir i gynnal adolygiadau manwl, gan gynnwys amseroldeb a'r effaith debygol.

Centre for Public Scrutiny — accountability, transparency, involvement

Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus wedi cyhoeddi canllaw byr, *A Cunning Plan*, sy'n egluro'r egwyddorion sylfaenol sy'n sail i raglennu gwaith da ac sy'n dyfynnu enghreifftiau o arfer nodedig gan awdurdodau lleol yn Lloegr (acunningplan).

*Dolen - www.cfps.org.uk/publications?item=113&offset=0*

## Nid yw'r wybodaeth a ddarperir i bwyllgorau craffu bob amser yn ddigon cadarn, clir nac amserol

46 Mae amrediad, amseroldeb, cyflwyniad a pherthnasedd y wybodaeth sydd ar gael i bwyllgorau oll yn cael effaith ar effeithiolrwydd y broses graffu. Roedd gan gynghorau safbwyntiau cymysg o ran i ba raddau roedd y wybodaeth roedd pwyllgorau craffu yn ei chael yn cefnogi gwelliant.

47 Nododd cynghorau nifer o ffyrdd y gellir atgyfnerthu'r wybodaeth i ategu trefniadau craffu. Roedd y rhain yn cynnwys y ffaith bod angen llai o fanylion amherthnasol mewn adroddiadau, amrywiaeth ehangach o wybodaeth er mwyn rhoi darlun mwy cynhwysfawr, yn ogystal â gwybodaeth o well ansawdd a gwybodaeth fwy amserol. Nododd rhai cynghorau hefyd yr angen i atgyfnerthu'r broses o bennu cwmpas a/neu flaenraglennu gwaith er mwyn sicrhau bod pwyllgorau craffu yn gofyn am y wybodaeth briodol.

48 Er mwyn sicrhau bod anghenion gwybodaeth pwyllgorau craffu yn glir, a bod y wybodaeth a ddarperir yn berthnasol, yn amserol ac ar fformat priodol, mae angen i gynghorau sicrhau bod sianelau cyfathrebu clir ar waith rhwng pwyllgorau craffu a'r rheini sy'n gyfrifol am ddarparu gwybodaeth iddynt. Gallai hyn gynnwys uwch reolwyr, swyddogion craffu, aelodau'r cabinet ac unrhyw dystion neu bartneriaid allanol y mae'r pwyllgor wedi gofyn iddynt am wybodaeth. Mae gan aelodau craffu ran bwysig i'w chwarae wrth lywio cynnwys a fformat y wybodaeth a gaiff ei chyflwyno iddynt a, lle y bo'n briodol, wrth herio'r ffordd y caiff gwybodaeth ei chyflwyno os na fydd yn eu galluogi i gyflawni eu rôl yn effeithiol. Mae angen i aelodau pwyllgorau craffu hefyd sicrhau y caiff anghenion gwybodaeth pwyllgorau ac argaeledd gwybodaeth eu hystyried wrth ddewis pynciau ac yn ystod camau cynllunio prosiectau. Mae angen i aelodau hefyd fod yn glir ynghylch diben gwneud cais am wybodaeth benodol a'r canlyniad y maent yn gobeithio ei gyflawni o ganlyniad i ystyried y wybodaeth honno.

49 Yn ogystal â chael gwybodaeth briodol, mae angen i adroddiadau a gyflwynir i bwyllgorau craffu fod yn ddigon dadansoddol a darparu gwerthusiad. Yn aml, mae adroddiadau hunanwerthuso yn cyflwyno data heb nodi perfformiad na chynnydd anfoddhaol. Mae adroddiadau yn aml yn rhy ddisgrifiadol ac nid ydynt yn canolbwyntio ddigon ar werthuso effaith gwasanaethau.

50 Dylai cynghorau hefyd ystyried adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol sy'n dwyn y teitl *Cynllunio ac Adrodd ar Welliannau Lleol yng Nghymru*[9]. Nododd yr adrodiiad 'Mewn nifer fach o awdurdodau, nid yw'r wybodaeth a gyflwynir i bwyllgorau craffu yn ddigon cyson na diduedd' ac 'nad yw cynghorwyr, sy'n gwneud cyfraniad allweddol at sicrhau gwelliannau trwy graffu effeithiol, yn cael eu llywio gan ddata a gwybodaeth gynhwysfawr'.




## Mae ansawdd y gwaith o baratoi ymlaen llaw ar gyfer pwyllgorau craffu yn amrywio'n sylweddol rhwng cynghorau

51 Gall rhag-gyfarfodydd, lle y bydd pwyllgorau craffu yn cyfarfod cyn cyfarfodydd ffurfiol y pwyllgor, helpu i gynllunio a pharatoi gweithgarwch craffu mewn sawl ffordd. Gall rhag-gyfarfodydd a gynhelir ymhell cyn cyfarfodydd ffurfiol y pwyllgor roi cyfle i bwyllgorau drafod a phennu'r canlynol: y wybodaeth sydd ei hangen; llinellau ymholi allweddol; y dewis o dystion a'u trefn; ac amcanion y pwyllgor o ran yr eitemau y mae'n bwriadu eu hystyried. Gallai pwyllgorau hefyd ddefnyddio rhag-gyfarfodydd i bennu amseroedd bras ar gyfer eitemau er mwyn sicrhau mai dim ond ar gyfer eitem(au) berthnasol y bydd tystion yn bresennol.

52 Mae cynllunio ymlaen llaw yn y fath fodd hefyd yn golygu y gellir briffio 'tystion' ymlaen llaw am y pwnc yr hoffai'r pwyllgor ei drafod, ac unrhyw wybodaeth yr hoffai iddi gael ei chynnwys o fewn yr adroddiadau a gyflwynir iddo. Nid oes yn rhaid i'r trafodaethau hyn gael eu cynnal fel cyfarfod ar wahân, ond gallent fod yn rhan o drafodaethau cyfarfod ffurfiol blaenorol y pwyllgor. Gall rhag-gyfarfodydd a gaiff eu cynnal yn union cyn cyfarfod ffurfiol y pwyllgor roi cyfle i'r aelodau drafod a chytuno ar ganlyniad bwriadedig y cyfarfod, llinellau ymholi allweddol o ran y cwestiynau i'w holi a'r dull holi y mae'r pwyllgor yn bwriadu ei ddefnyddio. Gall rhag-gyfarfodydd hefyd annog pwyllgorau i weithio fel tîm wrth gynllunio eu gweithgarwch ar y cyd.

Cyflwynwyd enghraifft dda o baratoi ar gyfer craffu effeithiol gan Alison Ward, Prif Weithredwr **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**, yn y gynhadledd graffu genedlaethol. Nododd Alison ei bod o'r farn mai craffu yw'r elfen fwyaf heriol o ddemocratiaeth ond yr elfen bwysicaf. Ar ôl etholiadau 2012, dechreuodd CBS Torfaen weithio gyda'r Aelodau i wella gwaith craffu. Comisiynwyd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ganddo i gynnal arfarniad o'i swyddogaeth graffu, ac o ganlyniad, mae wedi newid ei ddull gweithredu mewn perthynas â chraffu yn sylweddol. Un newid sylweddol a wnaed yw cynnal sesiynau pennu gweledigaeth blynyddol gan ddefnyddio gwybodaeth gan y cyhoedd a staff i greu darlun o'r materion yr hoffent eu hystyried drwy'r broses graffu. Mae hyn wedi arwain at sesiynau craffu cryfach gyda gwell cwestiynau a gwell argymhellion yn cael eu cyflwyno. Gellir gweld clip fideo o'r enghraifft hon gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol.

Alison Ward

*Dolen - http://vimeo.com/94525623*

9 *Cynllunio ac Adrodd ar Welliannau Lleol yng Nghymru*, Swyddfa Archwilio Cymru, Medi 2013.

53 Nid yw pob pwyllgor craffu yn cynnal rhag-gyfarfodydd ac, o blith y rheini sy'n gwneud hynny, gwelsom amrywiaeth o ddulliau gweithredu. Mae'r dulliau gweithredu yn amrywio o'r rheini a gaiff eu cynnal sawl diwrnod neu wythnos cyn cyfarfod llawn y pwyllgor fel arfer, i'r rheini a gaiff eu cynnal yn union cyn cyfarfod ffurfiol y pwyllgor neu ar ddechrau'r cyfarfod cyn i'r tystion gyrraedd. Gwelsom hefyd rywfaint o ddryswch o ran rôl rhag-gyfarfodydd. Roedd rhai pryderon y gallai defnyddio rhag-gyfarfodydd danseilio cyfarfod ffurfiol y pwyllgor gan arwain at gwestiynau 'wedi'u llwyfannu' heb unrhyw gwestiynau digymell neu gwestiynau dilynol.

54 Fodd bynnag, rydym o'r farn y gallai pwyllgorau craffu wneud defnydd mwy effeithiol o rag-gyfarfodydd. Gellid cyflawni hyn drwy sicrhau bod gan rag-gyfarfodydd ddiben clir y cytunwyd arno a'u bod yn dilyn fformat y cytunwyd arno er mwyn paratoi ar gyfer cyfarfod ffurfiol y pwyllgor heb danseilio'r cyfarfod hwnnw. Ni waeth pa ddull cynllunio a ddefnyddir, mae'n bwysig bod pwyllgorau yn cael y cyfle i drafod a chynllunio eu gweithgarwch craffu er mwyn sicrhau'r canlynol: bod diben pob eitem yn glir; bod yr anghenion gwybodaeth a'r tystion sydd eu hangen wedi'u cytuno; a bod gan y pwyllgor system effeithiol ar waith i ddatblygu llinellau ymholi. Ni chaent eu hystyried yn gyfarfodydd pwyllgor ffurfiol gan mai dim ond at ddibenion cynllunio y caent eu cynnal, ac fel y cyfryw, ni fyddai'n ofynnol iddynt fod yn agored i'r cyhoedd.

## Ceir rhai enghreifftiau o gwestiynau heriol da gan bwyllgorau craffu ond mewn rhai achosion, mae'r cwestiynau yn aneffeithiol

55 Mae craffu llwyddiannus yn dibynnu ar gwestiynu effeithiol sydd: yn dilyn llinellau ymholi; yn ceisio dod o hyd i ragor o wybodaeth; yn barod i herio lle bo angen; ac wedi'i gysylltu'n glir â rôl y pwyllgor. Mae ansawdd y cwestiynu yn deillio'n rhannol o sgiliau a gwybodaeth aelodau pwyllgorau craffu a chyfraniadau'r rheini sy'n ateb y cwestiynau. Fodd bynnag, mae hefyd yn dibynnu ar waith paratoi effeithiol, gan gynnwys dewis y pynciau cywir, cynllunio gweithgarwch craffu a sicrhau bod aelodau a swyddogion yn deall eu rôl yn y broses herio.

56 Roedd cynghorau yn gadarnhaol ar y cyfan am y graddau yr oedd pwyllgorau craffu yn herio drwy sgiliau cwestiynu effeithiol. Nododd nifer ohonynt eu bod wedi cael hyfforddiant mewn sgiliau cwestiynu; a nododd rhai bod safon cwestiynu yn gwella. Cydnabu rhai cynghorau fod angen gwella sgiliau cwestiynu ymhellach. O'n harsylwadau ein hunain o gyfarfodydd pwyllgorau craffu, nodwyd gennym fod ansawdd cwestiynau aelodau yn amrywiol. Nodwyd rhai enghreifftiau da o gwestiynau heriol a threiddgar; ond, roedd enghreifftiau hefyd o gwestiynu aneffeithiol, megis:

- a cwestiynau plwyfol a chwestiynau wedi'u llywio gan agenda bersonol;
- b pwyllgorau nad oeddent yn dilyn unrhyw linellau ymholi penodol;
- c diffyg cydlyniant o ran cwestiynu gan aelodau;
- ch aelodau yn gwneud datganiadau yn hytrach na chwestiynu tystion;

d cyfarfodydd yn ymddangos fel petaent wedi'u 'sgriptio'n ormodol' â diffyg cwestiynau digymell;

dd methiant ar ran pwyllgorau i ofyn cwestiynau treiddgar.

57 Amlygodd ein hastudiaeth bwysigrwydd rôl y cadeirydd wrth hwyluso ac arwain pwyllgorau craffu. Arsylwyd enghreifftiau o gadeirio cyfarfodydd yn effeithiol gennym, lle roedd y cadeiryddion yn crynhoi trafodaethau, gan sicrhau bod cwestiynau a thrafodaethau yn parhau i ganolbwyntio'n briodol ar y pwnc dan sylw ac yn pennu cywair priodol i'r cyfarfodydd gan roi cyfleoedd i aelodau a thystion gyfrannu mewn ffordd adeiladol. Fodd bynnag, gwelsom hefyd rai achosion lle nad oedd cadeiryddion mor effeithiol, er enghraifft, wrth ganiatáu i drafodaethau ddirwyn i ben heb gytuno ar unrhyw gasgliad neu argymhelliad clir. Mae'n arbennig o bwysig bod cynghorau yn sicrhau bod cadeiryddion craffu yn cael lefel briodol o hyfforddiant a chymorth er mwyn meithrin yr amrywiaeth o sgiliau sydd eu hangen i ymgymryd â'r rôl yn effeithiol.

## Yn gyffredinol, nid yw trefniadau craffu cynghorau bob amser wedi'u cysoni'n llawn â phrosesau gwella eraill cynghorau nac yn adeiladu ar brosesau archwilio, arolygu ac adolygu allanol

58 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried sut mae'r swyddogaeth graffu yn rhyngweithio gyda gwaith cyrff archwilio, arolygu ac adolygu ac yn defnyddio'r gwaith hwnnw i helpu i lywio ei gwaith.

### Yn gyffredinol, nid yw trefniadau craffu yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o waith archwilio, arolygu ac adolygu allanol

Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus
Commission on Public Service Governance and Delivery

**Y Comisiwn ar Ddarparu a Llywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus**

Rhaid i graffu, archwilio, arolygu a rheoleiddio ddod i ategu ei gilydd, rhaid iddynt fod wedi'u cysoni'n glir ac atgyfnerthu ei gilydd - argymhelliad 4.

Rhaid i archwilwyr, arolygwyr a rheoleiddwyr sy'n cyflwyno adroddiadau ar sefydliadau unigol wneud hynny'n uniongyrchol i'r pwyllgor craffu neu archwilio priodol. Lle y bo'n briodol, dylent helpu'r pwyllgor i ystyried yr adroddiad a sicrhau bod y weithrediaeth yn atebol. – argymhelliad 34.

59 Mae cyfleoedd i bwyllgorau craffu ddefnyddio adroddiadau cyrff adolygu allanol i lywio'r broses o gynllunio eu gwaith eu hunain, ac i ddarparu tystiolaeth i lywio canfyddiadau adolygiadau craffu. Gall y cyrff adolygu allanol hyn hefyd ystyried defnyddio'r gwaith a wnaed gan swyddogaeth graffu'r Cyngor i gael sicrwydd.

Mae canllawiau statudol ar gyfer Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 hefyd yn datgan: *‘Os yw prosesau craffu awdurdod wedi datblygu’n ddigonol i gyflawni’r uchod, a bod tystiolaeth glir o hynny i’w chael, yna gall yr Archwilydd Cyffredinol a rheoleiddwyr perthnasol fanteisio ar y gweithgaredd craffu hwn yn ystod eu hymwneud â’r awdurdod.’*




60 Canfu ein hastudiaeth fod y mwyafrif o gynghorau o’r farn y gellid gwella’r trefniadau cyfathrebu rhwng pwyllgorau craffu, ac archwilwyr, rheoleiddwyr ac arolygwyr y cyngor. Cyfeiriodd hunanwerthusiadau rhai cynghorau at enghreifftiau o archwilwyr, rheoleiddwyr neu arolygwyr allanol yn cael gwahoddiad i fynychu pwyllgorau craffu, a chydnabu rhai cynghorau hefyd rôl Pwyllgorau Archwilio wrth gydgysylltu ag archwilwyr, rheoleiddwyr neu arolygwyr.

61 Cydnabu cynghorau hefyd y gellid gwella’r trefniadau ar gyfer rhannu rhaglenni gwaith rhwng cyrff adolygu allanol a swyddogaethau craffu. Dim ond un cyngor oedd o’r farn bod y maes hwn yn faes o gryfder, ac roedd tri chyngor o’r farn fod y diffyg rhannu, mewn gwirionedd, yn llesteirio gwelliant. Cyfeiriodd sawl cyngor at y ffaith bod ei raglenni gwaith craffu ar gael ar wefan y cyngor, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth o gynghorau’n mynd ati i rannu rhaglenni gwaith craffu gyda chyrff adolygu allanol.

62 Er mwyn adeiladu ar waith archwilwyr, arolygwyr a rheoleiddwyr, dylai cynghorau a chyrff adolygu allanol ystyried ffyrdd ymarferol y gellid gwella trefniadau cyfathrebu mewn perthynas â chynlluniau gwaith a chanfyddiadau eu priod waith yn y dyfodol. Nododd y Comisiwn ar Ddarparu a Llywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus fod y ffordd y mae SAC yn atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad yn atgyfnerthu’r sail dystiolaeth ar gyfer ymchwiliadau’r Pwyllgor hwnnw ac yn rhoi mwy o effaith i’w ganfyddiadau a’i argymhellion. Mae hefyd yn helpu i sicrhau mwy o gysondeb rhwng atebolrwydd Llywodraeth Cymru i SAC a’i hatebolrwydd i’r Cynulliad ac felly fod y drefn yn llai beichus ac yn fwy effeithiol.

## Yn gyffredinol, nid yw’r trefniadau craffu wedi’u cysoni’n effeithiol â phrosesau gwella ehangach cynghorau

63 Caiff rôl craffu yn yr agenda ar gyfer gwella llywodraeth leol ei chydnabod mewn canllawiau statudol. Mae’r Canllawiau ar Ran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn nodi: ‘Mae rôl glir i swyddogaeth graffu awdurdod yn ei brosesau gwella: fel rhan o’i rôl yn galw penderfynwyr a llunwyr polisi i gyfrif yn lleol, a’i rôl yn datblygu polisïau.’ Mae’r canllawiau yn awgrymu y dylai rôl craffu gynnwys ‘craffu ar addasrwydd y sefydliad i gyflawni’r ddyletswydd gyffredinol i wella’, yn ogystal â’i rôl wrth ddatblygu polisïau a chraffu ar berfformiad a gwelliant. O’n profiad ni, anaml y mae gweithgareddau craffu yn ystyried capasiti ac addasrwydd at y diben, a byddai’n fuddiol i raglenni craffu gynnwys gweithgareddau o’r fath. Yn ymarferol, gall hyn gynnwys ymholiadau craffu sy’n ystyried capasiti a’r gallu i gyflawni, yn hytrach nag ansawdd polisïau a chynlluniau ar yr wyneb.

64 Roedd dwy ran o dair o gynghorau o'r farn bod y graddau y mae craffu wedi chwarae rhan benodol a gwerthfawr o fewn trefniadau'r cyngor ar gyfer hunanwerthuso, rheoli perfformiad a gwella, naill ai'n cefnogi gwelliant mewn ffordd gadarnhaol neu mewn ffordd sylweddol. Fodd bynnag, i saith cyngor, dim ond yn rhannol yr oedd hyn yn wir. Nododd rhai cynghorau hefyd fod angen gwella neu egluro rôl craffu o fewn trefniadau hunanwerthuso corfforaethol. Ymhlith y meysydd eraill a nodwyd ar gyfer gwella roedd: hyfforddiant i aelodau etholedig; yr angen i newid fformat y data a gyflwynir i bwyllgorau craffu; ac amseru o ran pryd roedd pwyllgorau craffu yn cael gwybodaeth am berfformiad. Roedd y meysydd eraill a nodwyd ar gyfer gwella yn cynnwys yr angen i gysoni prosesau mewnol yn well, gan gynnwys eu cysoni â rhaglenni gwaith gweithredol, a gwella trefniadau cyfathrebu mewnol hefyd.

65 Dim ond ychydig dros hanner y cynghorau sydd o'r farn bod pwyllgorau craffu yn effeithiol wrth herio perfformiad gwael. Cafwyd gennym fod gan bwyllgorau craffu y rhan fwyaf o gynghorau ran i'w chwarae o fewn trefniadau rheoli perfformiad a bod gwybodaeth am berfformiad yn cael ei chyflwyno'n rheolaidd. Fodd bynnag, lle cyflwynir gwybodaeth o'r fath, cafwyd gennym fod lefel y ddealltwriaeth mewn perthynas â'r data yn amrywio ymhlith aelodau craffu, nad yw'r broses o gwestiynu perfformiad bob amser yn effeithiol, ac mai cyfyngedig yw'r cysylltiad rhwng y data perfformiad a roddir i bwyllgorau a'r canlyniadau y maent yn honni eu bod yn berthnasol iddynt. O ganlyniad, yn yr achosion hyn, nid yw'r pwyllgorau craffu mewn sefyllfa i gyfrannu'n effeithiol at y broses o werthuso a rheoli perfformiad.

## Bydd trefniadau mwy effeithiol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a phartneriaid yn gwella prosesau craffu ac yn cynyddu atebolrwydd cyhoeddus

66 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried i ba raddau y mae swyddogaethau craffu cynghorau yn ymgysylltu â phartneriaid, rhanddeiliaid, grwpiau cymunedol ac aelodau o'r cyhoedd ac yn eu cynnwys yn eu gwaith.

67 Gall ymgysylltu â'r cyhoedd helpu i sicrhau bod y broses o ddewis pynciau i graffu arnynt yn ystyried safbwyntiau cymunedau lleol, yn gwella sail y dystiolaeth ar gyfer argymhellion craffu ac yn dangos atebolrwydd dros benderfyniadau, polisïau a pherfformiad. Fel arweinwyr cymunedol, mae aelodau etholedig mewn sefyllfa ddelfrydol i hwyluso'r broses o ymgysylltu â'r cyhoedd a phartneriaid ym maes craffu drwy eu cysylltiadau â'r gymuned a phartneriaid lleol. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau craffu ystyried safbwyntiau'r cyhoedd. Caiff rôl craffu wrth ddwyn partneriaid lleol i gyfrif ei phwysleisio hefyd o fewn canllawiau statudol sy'n ymdrin ag integreiddio cynlluniau a phartneriaethau - *'dylai awdurdodau lleol sicrhau bod prosesau craffu effeithiol ar waith er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd lleol am gamau a gymerir gan bartneriaethau'.*[10]

10 *Cydamcanu - Cydymdrechu, Canllawiau ar integreiddio Partneriaethau a Chynlluniau* – Llywodraeth Cymru, Fersiwn 2, Hawlfraint y Goron, Rhagfyr 2012.


Participation Cymru
@PartCymru
Follow

#scrutiny13 @lesley4wrexham minister says effective public engagement & scrutiny go hand in hand.

11:02 AM - 28 Nov 2013

2 RETWEETS


WLGA
@WelshLGA
Follow

Over half of welsh councils are, or have plans to broadcast key meetings to improve scrutiny and accessibility. #scrutiny13 #localgov

10:51 AM - 28 Nov 2013

6 RETWEETS

68 Mae'r rhan fwyaf o gynghorau yn cydnabod bod y graddau y mae pwyllgorau craffu yn sicrhau y caiff llais pobl leol ei glywed fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau lleol yn faes y mae angen ei wella. Yn ystod yr astudiaeth, cyfeiriodd rhai cynghorau at yr angen i ddatblygu strategaeth ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ym maes craffu, yn ogystal â'r angen i wella'r broses o ymgysylltu â'r cyhoedd wrth gynllunio gwaith craffu. Cydnabu cynghorau hefyd fod ehangu a gwella trefniadau ymgysylltu â phartneriaid yn faes i'w ddatblygu.

Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus
Commission on Public Service Governance and Delivery

**Y Comisiwn ar Ddarparu a Llywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus**

Rhaid i bwyllgorau craffu llywodraeth leol a chyrff craffu ffurfiol eraill ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r cyhoedd a phartneriaid. Dylai hynny gynnwys cyfethol unigolion o grwpiau eiriolaeth a grwpiau eraill i bwyllgorau craffu er mwyn cynyddu capasiti a gallu pwyllgorau o'r fath i ddarparu gwasanaeth craffu adeiladol a hyddysg. - argymhelliad 33.

69 Yn ystod yr astudiaeth graffu, darparodd cynghorau hefyd enghreifftiau yn eu hunanwerthusiadau o'r ffordd y maent wedi ceisio gwella trefniadau ymgysylltu allanol, gan gynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol, cyfethol i bwyllgorau a defnyddio panelau dinasyddion. Cyfeiriodd sawl cyngor hefyd at y ffaith y gall y cyhoedd gwblhau ffurflen yn gwneud cais iddynt graffu ar bwnc penodol. Dywedodd un cyngor fod ffurflen ar gael i'r cyhoedd roi sylwadau ar unrhyw bwnc a oedd yn cael ei ystyried gan bwyllgor craffu.

Yn y gynhadledd graffu genedlaethol, soniodd y Cynghorydd Peter Farley o **Gyngor Sir Fynwy** am bwysigrwydd cynnwys y cyhoedd mewn gwaith craffu. Ystyriodd y ffordd y gall ymgysylltu â'r cyhoedd fod yn ffordd o wella gwaith craffu ac hefyd werth cyfranogiad y cyhoedd mewn pwyllgorau craffu.

Rhoddodd dair enghraifft o'r ffordd yr aed ati i wneud hyn yn Sir Fynwy a sut y mae cynnwys rhanddeiliaid, unigolion, cymunedau a grwpiau buddiant wedi gwella'r swyddogaeth graffu yn Sir Fynwy yn sylweddol. Gellir gweld clip fideo o'r Cynghorydd Farley gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol.

Y Cynghorydd Peter Farley

*Dolen - http://vimeo.com/94525623*

Tudalen y pecyn 40

70 Fodd bynnag, wrth arsylwi pwyllgorau craffu, gwelsom nifer o arferion a all atal y cyhoedd a phartneriaid cynghorau rhag cymryd rhan mewn cyfarfodydd pwyllgorau craffu. Roedd arferion o'r fath yn cynnwys acwsteg wael, diffyg copïau sbâr o agendâu, a'r defnydd o ystafelloedd cyfarfod anaddas a oedd yn helpu i greu amgylchedd rhy ffurfiol neu lle nad oedd llawer o seddau ar gyfer arsylwyr allanol.

71 Yn amlwg, mae cyfleoedd i swyddogaethau craffu ehangu eu gweithgarwch ymgysylltu ac i rai ddysgu o'r amrywiaeth o ddulliau gweithredu sydd eisoes wedi'u rhoi ar waith. Mae rhai cynghorau yn fwy rhagweithiol nag eraill yn eu hymdrechion i ymgysylltu â'r cyhoedd yn ystod pob cam o weithgarwch craffu, gan gynnwys: dewis pynciau; cynllunio a phennu cwmpas; casglu tystiolaeth; ac adrodd ar ganfyddiadau. Er mwyn ymgysylltu'n effeithiol, mae'n bosibl y bydd angen newid lleoliad, fformat a chynllun cyfarfodydd a chynnwys rhaglenni gwaith er mwyn annog mwy o ddiddordeb ac ymgysylltu. Gall cynghorau hefyd ddefnyddio'r dulliau niferus o ymgysylltu â'r cyhoedd a roddwyd ar waith eisoes ledled Cymru a Lloegr. Mae'r gydnabyddiaeth gan lawer o gynghorau bod ymgysylltu â phartneriaid yn faes y gellid ei wella yn awgrymu bod pwyllgorau craffu yn aml yn methu â defnyddio gwybodaeth, arbenigedd a safbwyntiau partneriaid i lywio eu gwaith.

72 Fel rhan o'r gynhadledd graffu genedlaethol, cynhaliwyd sesiynau i ystyried ffyrdd y gallai pwyllgorau craffu ymgysylltu'n well â'r cyhoedd a phartneriaid. Ceir manylion a dolenni yn y blychau isod.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Adnodd Ymgysylltu â'r Cyhoedd**

Ystyriodd y gweithdy hwn yr egwyddor o gyfranogi mewn gweithgareddau craffu ac amlinellodd y defnydd o adnodd ymgysylltu. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol fel sefydliad wedi rhoi blaenoriaeth i ehangu cyfranogiad mewn gweithgareddau craffu. Mae 'ymgysylltu â phobl Cymru' yn flaenoriaeth gorfforaethol.

Ceir dolen i allbwn y gynhadledd a'r Adnodd Ymgysylltu â'r Cyhoedd yma.

*Dolen - www.assemblywales.org/public_engagement_toolkit_2014.pdf*

## Rôl Graffu y Cynghorydd Rhwydwaith

Amlinellodd Catherine Howe o Public-i Group Ltd pam bod craffu yn fan cychwyn perffaith ar gyfer datblygu'r gydberthynas rhwng y cynghorydd rhwydwaith a'r cyhoedd.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.public-i.info

73 Mae ymgysylltu'r cyhoedd â busnes y cyngor yn anodd ac mae angen ystyried yn ofalus gyda phwy y dylid ymgysylltu, ar beth ac at ba ddiben. Unwaith y bydd hyn yn hysbys, mae'r dull a'r arddull ymgysylltu yn bwysig er mwyn gallu sicrhau y ceir cymaint o gyfraniadau â phosibl ac y cânt yr effaith fwyaf posibl. Nid oes unrhyw atebion syml, ac ni fydd yr hyn a weithiodd i un cyngor mewn perthynas â mater penodol o reidrwydd yn gweithio i gyngor arall. Fodd bynnag, yn aml, mae'r symudiad tuag at drefniadau ymgysylltu mwy effeithiol yn symudiad diwylliannol sydd ei angen ar draws cyngor cyfan, yn hytrach na dim ond ar gyfer y swyddogaeth graffu.

74 Gall cynghorau fod yn awyddus i ystyried y 10 Egwyddor Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a ddatblygwyd gan Cyfranogaeth Cymru wrth ystyried y ffordd orau i ymgysylltu â'r cyhoedd a'u cynnwys. Mae eu nodiadau cyfarwyddyd ar yr Egwyddorion Cenedlaethol yn darparu ffordd ddefnyddiol o ystyried rhai o'r materion hyn (www.participationcymru.org.uk/media/288784/national_principles_for_public_engagement_aug1_.pdf).

75 I grynhoi, cydnabyddir bod yr angen i ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn her barhaus i swyddogaethau craffu, ac i gynghorau yn gyffredinol. Fodd bynnag, drwy gynllunio gweithgareddau craffu mewn ffordd fwy rhagweithiol, drwy ymdrechion ac adnoddau penodedig a thrwy gymorth gan sefydliadau fel Cyfranogaeth Cymru a'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus, gall llais pobl leol chwarae rhan bwysig mewn gwaith craffu ac o ran gwneud penderfyniadau lleol.

# Atodiadau

Atodiad 1 - Hunanwerthusiadau a gwerthusiadau gan dimau cymheiriaid

Atodiad 2 - Canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol



# Atodiad 1
# Hunanwerthusiadau a gwerthusiadau gan dimau cymheiriaid


## Astudiaeth Wella Archwilydd Cyffredinol Cymru - Craffu mewn Llywodraeth Leol

Roedd yr astudiaeth wella hon yn wahanol i'r dull archwilio traddodiadol gan ei bod yn cynnwys gweithgareddau cydweithio amser real, hunanwerthusiadau a chyfleoedd i gymheiriaid gyfnewid gwybodaeth am yr hyn a ddysgwyd ganddynt. Roedd y broses gyfnewid hon rhwng cymheiriaid yn golygu bod cynghorau yn cynnal eu hunanwerthusiadau eu hunain o drefniadau craffu gyda chynghorau partner gan arsylwi a rhannu sylwadau ar bwyllgorau craffu ei gilydd. O ganlyniad i'r broses hon, llwyddwyd i feithrin cydberthnasau rhwng cynghorau, gan feithrin gwell dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad ohonynt hwy eu hunain ac eraill, yn ogystal â nodi cyfleoedd i gydweithio ac ymgymryd â gweithgareddau craffu ar y cyd yn y dyfodol.

Ar ddiwedd yr astudiaeth, roedd gan bob cyngor linell sylfaen gyfredol o'i drefniadau craffu ei hun a threfniadau craffu cynghorau eraill. Roedd y llinell sylfaen hon yn seiliedig ar arsylwadau amser real, gweithdai rhanbarthol, adborth gan gynghorau partner, hunanwerthusiad terfynol a oedd yn berthnasol i bob cyngor ac adroddiad lleol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Galluogodd hyn i'r cynghorau gyflwyno eu hunanwerthusiad terfynol i'w haelodau eu hunain ac i benderfynu ar gynllun gweithredu ar gyfer gwella.


## Hunanwerthusiadau a gwerthusiadau gan dimau cymheiriaid

### C1. A oes gan aelodau gweithredol ac anweithredol, uwch swyddogion, swyddogion craffu a phartneriaid lleol allweddol ddealltwriaeth glir a rennir o rôl a diben gweithgarwch Trosolwg a Chraffu (TCh) ac a yw'n cael ei gyflawni mewn ffordd glir a chyson?





Tudalen y pecyn 46


C2. A oes statws uchel i TCh ac a yw'n ennyn parch ac ymddiriedaeth o fewn yr Awdurdod a'r tu allan iddo?





C3. A oes cydberthynas bendant ac adeiladol rhwng TCh, y pwyllgor gweithredol ac uwch swyddogion?




C4. A oes gan TCh rôl bendant a gwerthfawr i'w chwarae yn nhrefniadau hunanwerthuso, rheoli perfformiad a gwella'r cyngor?





C5. A oes cyfathrebu dwyffordd rheolaidd ac effeithiol rhwng TCh ac archwilwyr allanol/mewnol, rheoleiddwyr ac arolygwyr?




C6. A oes gan TCh drefniadau llywodraethu clir a ddeëllir ac sy'n cael eu rhoi ar waith yn effeithiol?





C7. A yw cadeiryddion ac aelodau gweithredol TCh yn mynd ati i hyrwyddo rôl a gwerth y swyddogaeth graffu i amrywiaeth o randdeiliaid mewnol ac allanol?



C8. A all aelodau TCh fanteisio ar gyfleoedd datblygu a hyfforddi sy'n canolbwyntio ar angen, fel rhan o ymrwymiad ehangach y cyngor i gefnogi a datblygu aelodau?





C9. A yw TCh yn cael digon o gymorth penodedig gan swyddogion a all ymchwilio'n annibynnol a rhoi dadansoddiadau a chymorth gwrthrychol o safon i aelodau TCh?





Tudalen y pecyn 50


C10. A yw rôl swyddogion sy'n cefnogi gweithgarwch craffu yn uniongyrchol yn cael ei deall yn dda a'i gwerthfawrogi o fewn y sefydliad?





C11. A yw'r broses TCh yn cael cymorth effeithiol gan gorfflu swyddogion ehangach y cyngor yn ôl yr angen?




## C12. A yw'r wybodaeth a roddir i TCh yn berthnasol, yn gadarn, yn gytbwys, yn ystyrlon, yn ymateb i geisiadau ac o safon ac a gaiff ei rhoi mewn modd amserol a chyson?





## C13. Adran Un, Amgylchedd Craffu: A yw'r amgylchedd lle mae TCh yn gweithredu yn cefnogi gwelliant?




C14. A yw TCh yn rhoi her adeiladol sy'n seiliedig ar dystiolaeth; yn gweithredu'n wrthrychol, yn anwleidyddol ac yn annibynnol ar wneuthurwyr penderfyniadau gweithredol?





C15. A yw aelodau TCh yn nodi pynciau priodol at ddibenion eu herio neu adolygu/datblygu polisïau ac yn datblygu blaenraglenni gwaith sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau?




C16. A yw aelodau TCh yn herio'r rhai sy'n gwneud ac yn gweithredu polisïau a phenderfyniadau (gan gynnwys partneriaid ac ati) yn adeiladol ond yn gadarn drwy ofyn cwestiynau, gwrando a dadansoddi'n effeithiol, ac yn meithrin dealltwriaeth a gwybodaeth dda o'r pwnc dan sylw?





C17. A yw ymchwiliadau/adolygiadau TCh yn fanwl ac yn drylwyr ac a ydynt yn defnyddio safbwyntiau annibynnol a gwrthrychol o amrywiaeth eang o ffynonellau (gan gynnwys defnyddio gwybodaeth feincnodi) o fewn y cyngor a'r tu allan iddo?




C18. A yw TCh yn ymgysylltu'n rheolaidd ag aelodau, swyddogion, y cyhoedd a rhanddeiliaid allanol eraill wrth gynllunio a gwneud ei waith?





C19. A oes gan TCh raglen waith gytbwys a phenodol a ddatblygir gan aelodau TCh, ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd a phartneriaid a thrafod ag aelodau gweithredol ac uwch swyddogion?



C20. A yw aelodau TCh yn cynllunio eu gwaith gan ystyried priodoldeb amrywiaeth o ddulliau/ methodolegau craffu, defnyddio cylch gorchwyl clir a chynlluniau prosiect realistig?





C21. A gaiff blaenraglenni craffu eu rhannu fel rhan o'r drefn ag archwilwyr, arolygwyr a rheoleiddwyr er mwyn dylanwadu ar y gwaith o gynllunio gweithgarwch gwella?





Tudalen y pecyn 56


C22. A yw TCh yn chwarae rôl allweddol yn nhrefniadau hunanwerthuso ac asesu'r cyngor ac yn gwerthuso ei hun yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ddysgu a gwella'r modd y mae'n ychwanegu gwerth ac effaith?





C23. Adran Dau, Arfer Craffu: A yw arfer TCh yn effeithiol?




C24. A yw TCh yn cyfrannu'n rheolaidd at wella polisïau arfaethedig/presennol er budd yr ardal a'i chymunedau lleol?





C25. A yw TCh yn nodi achosion lle nad yw polisïau y cytunwyd arnynt yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol ac yn argymell camau unioni priodol i'r sawl sy'n gyfrifol y tu mewn i'r Cyngor neu'r tu allan iddo?




C26. A yw TCh yn herio perfformiad gwael a'r rhesymau drosto ac yn tynnu sylw uwch swyddogion, y pwyllgor gweithredol, y cyngor llawn neu bartneriaid atynt fel y gellir cymryd camau unioni fel y bo'n briodol tra'n parhau i fonitro'r cynnydd a wneir er mwyn unioni hyn?





C27. Wrth gynnal ymchwiliadau/adolygiadau manwl o ran meysydd sy'n perfformio'n wael, a yw TCh yn helpu i lywio ymatebion er mwyn gwella perfformiad a pherfformiad darparwyr eraill yn y sector cyhoeddus?



C28. A yw TCh yn sicrhau y caiff 'llais' pobl a chymunedau lleol ledled yr ardal ei glywed fel rhan o brosesau gwneud penderfyniadau a llunio polisïau lleol?





C29. A yw TCh yn gwella atebolrwydd democrataidd drwy herio gwneuthurwyr penderfyniadau lleol/ darparwyr gwasanaethau yn yr ardal leol (gan gynnwys darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill / darparwyr 'gwasanaethau a rennir') yn rheolaidd, yn gadarn, yn adeiladol ac yn gyhoeddus?




Tudalen y pecyn 60

C30. Adran Tri, Effaith Craffu: A yw gweithgarwch TCh yn cael effaith?




Tudalen y pecyn 61

# Atodiad 2
# Canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol

## Rhwydwaith Swyddogion Craffu Cymru

## Canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol

| Canlyniad<br>*Beth mae craffu da yn anelu at ei gyflawni?* | Nodweddion<br>*Sut olwg fyddai arno? Sut y gallem ei adnabod?* |
|---|---|
| 1 Mae atebolrwydd democrataidd yn llywio gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus.<br><br>*'Canlyniadau Gwell'* | **Yr amgylchedd**<br>i) Mae gan drosolwg a chraffu rôl benodol a gwerthfawr o fewn trefniadau gwella a llywodraethu'r cyngor.<br>ii) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn cael y cymorth sydd ei angen arni gan swyddogion penodedig sy'n gallu cynnal gwaith ymchwil annibynnol yn effeithiol, ac mae'n rhoi dadansoddiadau, cyngor a hyfforddiant o ansawdd uchel i gynghorwyr.<br><br>**Arfer**<br>iii) Mae ymchwiliadau'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn anwleidyddol, yn fethodolegol gadarn ac yn cynnwys amrywiaeth eang o dystiolaeth a safbwyntiau.<br><br>**Effaith**<br>iv) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn herio gwneuthurwyr penderfyniadau a darparwyr gwasanaethau yn rheolaidd ar sail tystiolaeth.<br>v) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn darparu atebion hyfyw yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn i broblemau cydnabyddedig. |
| 2 Mae'r broses o wneud penderfyniadau democrataidd yn atebol, yn gynhwysol ac yn gadarn.<br><br>*'Penderfyniadau gwell'* | **Yr amgylchedd**<br>i) Mae cynghorwyr trosolwg a chraffu yn cael y cyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd eu hangen arnynt i ymgymryd â'u rôl yn effeithiol.<br>ii) Mae'r broses yn cael cefnogaeth effeithiol gan dîm rheoli corfforaethol y cyngor sy'n sicrhau bod y wybodaeth a roddir i'r swyddogaeth trosolwg a chraffu o ansawdd uchel ac y caiff ei darparu mewn modd amserol a chyson.<br><br>**Arfer**<br>iii) Caiff y swyddogaeth trosolwg a chraffu ei harwain gan gynghorwyr, mae'n ystyried safbwyntiau'r cyhoedd, partneriaid a rheoleiddwyr, ac yn cydbwyso'r broses o flaenoriaethu pryderon y gymuned yn erbyn materion lle ceir risg strategol a materion o bwysigrwydd strategol.<br>iv) Caiff cyfarfodydd a gweithgareddau'r swyddogaeth trosolwg a chraffu eu cynllunio'n dda, eu cadeirio'n effeithiol ac maent yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddi.<br><br>**Effaith**<br>v) Mae gwneuthurwyr penderfyniadau yn sicrhau eu bod yn atebol i'r cyhoedd mewn perthynas â'u cyfrifoldebau portffolio o fewn pwyllgorau trosolwg a chraffu. |

| Canlyniad<br>*Beth mae craffu da yn anelu at ei gyflawni?* | Nodweddion<br>*Sut olwg fyddai arno? Sut y gallem ei adnabod?* |
|---|---|
| 3 Mae'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn trafodaethau democrataidd am y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu nawr ac yn y dyfodol.<br><br>*'Ymgysylltu'n well'* | **Yr amgylchedd**<br>i) Mae'r weithrediaeth a'r tîm rheoli corfforaethol yn cydnabod y swyddogaeth trosolwg a chraffu fel un o systemau pwysig y cyngor ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned, ac mae'r swyddogaeth yn hwyluso mwy o gyfranogiad gan y cyhoedd ym maes llywodraethu.<br><br>**Arfer**<br>ii) Nodweddir y swyddogaeth trosolwg a chraffu gan drefniadau cyfathrebu effeithiol er mwyn codi ymwybyddiaeth o atebolrwydd democrataidd ac annog cyfranogiad.<br>iii) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn gweithredu mewn modd anwleidyddol ac yn ymdrin yn effeithiol â thensiwn, gwrthdaro a materion gwleidyddol sensitif.<br>iv) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn meithrin ymddiriedaeth a chydberthnasau da ag amrywiaeth eang o randdeiliaid mewnol ac allanol.<br><br>**Effaith**<br>v) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn galluogi i 'lais' pobl a chymunedau lleol ledled yr ardal gael ei glywed fel rhan o'r prosesau gwneud penderfyniadau a llunio polisïau. |

# Goleuni ar Graffu

## Adnoddau

Mehefin 2014

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Cardiff Business School

Cardiff University

Centre for Public Scrutiny

Gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru
Working in partnership with Welsh Government

WLGA • CLILC

# Ynglyn â'r adnoddau yma

Mae gan Graffu rôl allweddol i'w chwarae mewn hyrwyddo gwelliant, effeithlonrwydd a chydweithrediad ar draws gwasanaethau cyhoeddus ac wrth ddal y rhai sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau hynny yn atebol. Mae rôl craffu yn gynyddol bwysig yn y cyfnod hwn pan fo gwasanaethau cyhoeddus yn ymateb i'r her o gyfyngiadau ariannol, wrth geisio'n gyson i wella mewn ymateb i ddisgwyliadau'r cyhoedd, sy'n codi. Mae datblygu trefniadau craffu effeithiol ar y cyd ar gyfer cydweithrediadau newydd hefyd yn flaenoriaeth fwyfwy pwysig.

Mae adnoddau a gynhyrchwyd cyn, yn ystod ac mewn ymateb i Gynhadledd 'Goleuni ar Graffu - Gwneud y mwyaf o'ch buddsoddiad' ym mis Tachwedd 2013 wedi'u casglu at ei gilydd yn y ddogfen hon. Mae'r adnoddau, sy'n cynnwys cyflwyniadau, areithiau, clipiau fideo, blogiau, offer a negeseuon trydar cynrychiolwyr, yn adlewyrchu'r pwysigrwydd sy'n cael ei roi ar rôl craffu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn ystod yr amseroedd heriol yma.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

The Good Practice Exchange
Y Gyfnewidfa Arfer Da

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Trosolwg Strategol | 4 |
| Atebolrwydd trwy wrando – Gwersi a ddysgwyd o Ymchwiliad Cyhoeddus Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford | 14 |
| Enghreifftiau o sut mae Craffu wedi cael effaith | 16 |
| Rôl Graffu y Cynghorydd Rhwydwaith | 19 |
| Ymgysylltu â’r Cyhoedd ym maes Craffu | 22 |
| Tystiolaeth o’r Effaith: Gwneud y gorau o’ch buddsoddiad ym maes Craffu | 27 |
| Dileu’r Ofn o Graffu ar Gyllideb | 29 |
| Defnyddio Craffu Seiliedig ar Wybodaeth/Tystiolaeth | 30 |
| Craffu Cydweithredol: Myfyrdodau o Ymarfer | 32 |
| Adnoddau defnyddiol eraill | 37 |


Mae’r adnodd hwn yn cefnogi ***Craffu Da? Cwestiwn Da!***, adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar astudiaeth wella o waith Craffu mewn Llywodraeth Leol.

Yn bwysig iawn, mae’r adroddiad ei hun yn cynnwys llawer o adnoddau, gan gynnwys ***Canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol***, gafodd ei ddatblygu gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru, a gefnogir gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus. Mae’r nodweddion wedi’u lleoli yn atodiad 2 o’r adroddiad.

# Trosolwg Strategol

**Beth yw nod yr adran hon?**
Nod yr adran hon yw rhoi trosolwg o'r pwysigrwydd a roddir i graffu effeithiol yng Nghymru; yr heriau sy'n wynebu rôl craffu, a'r angen i yrru mwy o gysondeb.

**Pwy sy'n rhannu'r wybodaeth yma?**
Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes Llywodraeth, Llywodraeth Cymru a'r Cyfarwyddwr Gweithredol dros Ganolfan Craffu Cyhoeddus. Hefyd yn cynnwys clipiau fideo gan Aelodau Craffu a gymerodd ran mewn Astudiaeth Genedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar Graffu, yn rhannu eu pwyntiau dysgu allweddol.

Mae'r gyfres olaf o glipiau fideo gan y Prif Swyddogion, Aelodau Craffu a Swyddogion Craffu yn yr adran hon yn tynnu sylw at effaith mae craffu wedi cael ar wasanaethau cyhoeddus.

**Sut caiff y wybodaeth yma ei rhannu?**
Mae'r themâu hyn yn cael eu cynnwys mewn trawsgrifiadau areithiau, blogiau a ysgrifennwyd cyn ac ar ôl y gynhadledd Craffu, clipiau fideo sy'n rhoi crynodeb o negeseuon allweddol a negeseuon trydar cynrychiolwyr yn ymateb i'r fideos ac areithiau.

**Huw Vaughan Thomas,**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**



“Bore da. Mae’r Gweinidog wedi gosod cyd-destun diddorol ar gyfer y trafodaethau y byddwn yn eu cael heddiw. Ni ddylai fod unrhyw amheuaeth ynghylch pwysigrwydd craffu cyhoeddus effeithiol yng Nghymru i’r ddau ohonom. Fel yr adlewyrchir gan y niferoedd sydd yma heddiw.

Fodd bynnag, byddwn yn herio’r ffordd yr ystyrir craffu yn rhy gul weithiau. Yn aml, defnyddir y term, o fewn llywodraeth leol, fel llaw-fer - weithiau, ar gyfer rôl un neu fwy o bwyllgorau craffu, weithiau ar gyfer y broses o graffu ar aelodau o fewn awdurdod. Mae’n gywir ac yn briodol i graffu ar bolisïau a phenderfyniadau lefel uchel yn drylwyr yn y fath fodd. Fodd bynnag, mae craffu yn ymwneud â llawer mwy na’r prosesau democrataidd ffurfiol, a rôl ehangach craffu rwyf am ei thrafod y bore yma.

Ni ddylai rôl adolygiadau annibynnol na swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a’i bwyllgor cyfrifon cyhoeddus gael eu tanamcangyfrif o fewn y system ehangach hon. Ni ddylid ychwaith anwybyddu swyddogaeth pwyllgorau archwilio a phwyllgorau craffu o fewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru, na gwaith cyrff archwilio, arolygu a rheoleiddio. Eto i gyd, mae systemau priodol ar gyfer monitro adnoddau, canlyniadau a gwerth am arian; amheuon proffesiynol a’r adolygiadau o safonau mewn bywyd cyhoeddus yn fater i bawb.

Byddwn yn dadlau bod gan bawb sydd ynghlwm wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus ryw fath o gyfrifoldeb am graffu. Dyma’r diffiniad eang a ddefnyddiaf wrth siarad â chi heddiw.

Tybed a all unrhyw un gofio’r dyfyniad hwn o fis Medi’r llynedd: “Mae’n warthus eu bod hyd yn oed wedi meddwl amdano heb sôn am wario arian cyhoeddus pan fo’n rhaid i bawb arall arbed arian oherwydd y sefyllfa economaidd sydd ohoni.””

Araith lawn yr Archwilydd Cyffredinol.

Mae’r fideo yma’n rhannu profiadau cynghorwyr o bob cwr o Gymru wrth iddynt gymryd rhan yn yr astudiaeth Craffu Da? Cwestiwn da! Mae’r Cynghorydd Linda Matthews, y Cynghorydd Elizabeth Evans, y Cynghorydd Tom Turner a’r Cynghorydd Arwel Roberts yn rhoi eu barn am ddull yr astudiaeth,  eu hawgrymiadau ar gyfer craffu, a’r hyn maen nhw wedi dysgu.



*Fideo o brofiadau cynghorwyr*

Dyma Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn trafod y pwyntiau allweddol yn ei araith ac yn rhoi ei neges allweddol o gynhadledd Goleuni ar Graffu: Gwneud y mwyaf o’ch buddsoddiad, gan gynnwys pwysleisio datblygiad parhaus craffu, rôl craffu ar y cyd, a buddsoddi mewn craffu.



*Fideo o Huw Vaughan Thomas*

## Negeseuon trydar ar Araith Agoriadol yr Archwilydd Cyffredinol

> **WLGA** @WelshLGA
> Auditor General for Wales: 'cold wind of recession' means effective scrutiny of public spending is more important than ever. #scrutiny13
> 11:03 AM - 28 Nov 2013
> 2 RETWEETS

*Neges drydar CLILC*

> **Good Practice Wales** @GPWales
> Audit General @WalesAudit scrutiny plays a vital role in transformative change #scrutiny13
> 11:08 AM - 28 Nov 2013
> 3 RETWEETS

*Neges drydar Arfer Da Cymru*

> **Alan Morris** @AlanMorrisWAO
> AGW says need to measure impact of scrutiny and provide scrutiny committees with better data. #scrutiny13
> 11:10 AM - 28 Nov 2013 Cardiff, United Kingdom

*Neges drydar Alan Morris*

> **WLGA** @WelshLGA
> Auditor General: scrutiny is a shared responsibility, the process must remain alive to public interest, standards and concerns. #scrutiny13
> 11:11 AM - 28 Nov 2013

*Neges drydar CLILC*

> **WLGA** @WelshLGA
> Auditor Gen: failure to install effective scrutiny processes, at all levels, will result in dramatic loss of public confidence. #scrutiny13
> 11:18 AM - 28 Nov 2013
> 4 RETWEETS

*Neges drydar CLILC*

> **Alan Morris** @AlanMorrisWAO
> Top tips- Ask simple questions. Work closely with officers. Involve the public. #scrutiny13
> 11:18 AM - 28 Nov 2013 Cardiff, United Kingdom
> 4 RETWEETS

*Neges drydar Alan Morris*

**Lesley Griffiths AC, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth**



“ Yr wyf yn hynod falch o fod yma heddiw oherwydd fy mod yn credu'n gryf yn y manteision o graffu'n effeithiol.

Gallaf ddweud o weld y nifer o bobl sydd yma nad fi yw'r unig un sy'n teimlo fel hyn ac mae'n galonogol iawn gweld cynifer o gyd-aelodau etholedig a chydweithwyr yma yn awyddus i ddysgu o arfer gorau a chwilio am ddulliau newydd ac arloesol o graffu.

Democratiaeth gref yw'r llinyn sy'n rhedeg drwy bopeth - o wella gwasanaethau i sicrhau'r defnydd gorau o arian cyhoeddus a llywodraethu da.

Mae craffu yn gwbl ganolog i lywodraethu effeithiol ac atebolrwydd. Mae'n hanfodol er mwyn dangos bod awdurdodau lleol yn agored ac yn dryloyw.

Llywodraethu, craffu a darparu yw un o themâu'r Comisiwn ar Lywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus a Chyflenwi. Mae llywodraethu cryf ac effeithiol, ac felly craffu, yn ganolog i unrhyw gynigion, waeth beth fydd canfyddiadau'r adroddiad.

Mae craffu wastad wedi cael y rôl hon, ond yng ngoleuni'r heriau ariannol yr ydym i gyd yn eu hwynebu, daw'r cyfraniad hwn yn fwyfwy pwysig. Mae'n iawn ein bod ni i gyd yn buddsoddi amser ac adnoddau mewn gwaith craffu fel gweithgaredd sy'n ychwanegu gwerth. Gallech chi alw craffu'n wasanaeth 'buddsoddi i arbed' i'r sector cyhoeddus.

Mae teitl y gynhadledd hon, 'Goleuni ar Graffu: Gwneud y mwyaf o'ch buddsoddiad' felly'n hollol amserol a pherthnasol wrth i ni i gyd anelu at wneud y gorau ar gyfer pobl Cymru yn y cyfnod ariannol heriol yma. ”

Araith lawn y Gweinidog.

## Good Practice Exchange at the Wales Audit Office
## Y Gyfnewidfa Arfer Da yn Swyddfa Archwilio Cymru

Encouraging public service improvement through shared learning and knowledge exchange
Yn annog gwelliant i wasanaethau cyhoeddus drwy gyfnewid gwybodaeth a dysgu ar y cyd

### Cydweithio

**Yn ei flog, amlinellodd Richard Shearer gyd-destun cynhadledd Goleuni ar Graffu o safbwynt Llywodraeth Cymru. Mae Richard yn amlinellu pwysigrwydd cydweithredu, rôl y Gronfa Datblygu Gwaith Craffu a'r ffaith mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yw'r sylfaen ar gyfer craffu yng Nghymru:**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ai'r gynhadledd Goleuni ar Graffu yw'r tro cyntaf i Graffu fod yn ganolbwynt y sylw? Mae'n sicr yn awgrymu bod tro ar fyd. Byddai rhai'n dweud bod dyheadau Deddf Llywodraeth Leol 2000, ar ôl yr holl waith caled i ddatblygu craffu, yn barod i gamu i'r prif lwyfan; yn barod i arwain gwelliannau yn ein gwasanaethau cyhoeddus ar ran y dinesydd.

Rhaid cydnabod bod sawl enghraifft eisoes o gydweithio sy'n herio ein syniadau am graffu; Consortia Addysg Rhanbarthol, prosiectau a ariennir gan Gronfeydd Cydweithio Rhanbarthol, a datblygiad parhaus Byrddau Gwasanaethau Lleol a Chynllunio Integredig Sengl. Ond mae'r llwyfan yn ddigon mawr i ychwanegu'n helaeth at y cast, ac adeiladu'r arferion sydd eisoes ar waith a'u datblygu.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Graffu fod yn fwy ymatebol, mae'n rhaid sicrhau bod herio priodol yn digwydd a bod atebolrwydd effeithiol ar waith. Dyma gyd-destun newydd y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac mae craffu mewn sefyllfa dda i gyflawni'r dyheadau hyn.

Blog llawn Richard.

## Prif neges gan Lesley Griffiths AC, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Dyma'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol Lesley Griffiths AC yn trafod negeseuon allweddol o'r Goleuni ar Graffu: Gwneud y mwyaf o'ch buddsoddiad, rôl craffu mewn dadleuon ynghylch buddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus, a hefyd bwysigrwydd asesiadau effaith cydraddoldeb wrth graffu.



*Fideo o Lesley Griffiths AC*

## Negeseuon trydar cynrychiolwyr

Lesley Griffiths @WG_LocalGovMin Follow

Pleased to speak at Scrutiny in the Spotlight conf on the role of scrutiny in delivering effective & efficient public services #scrutiny13

10:37 AM - 28 Nov 2013

6 RETWEETS

*Neges drydar Lesley Griffiths*

Catherine Howe @curiousc Follow

Strong case being made for how strong scrutiny can help to deliver accountability within partnerships and collaboration #scrutiny13

10:52 AM - 28 Nov 2013

*Neges drydar Catherine Howe*

Participation Cymru @PartCymru Follow

#scrutiny13 @lesley4wrexham minister says effective public engagement & scrutiny go hand in hand.

11:02 AM - 28 Nov 2013

2 RETWEETS

*Neges drydar Cyfranogaeth Cymru*

## Jessica Crowe, Cyfarwyddwr Gweithredol, Canolfan Craffu Cyhoeddus

Dyma Jessica Crowe o'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn trafod y prif bwyntiau o'r Goleuni ar Graffu: Gwneud y mwyaf o'ch buddsoddiad ei gynhadledd effaith, gan gynnwys pwysigrwydd cysondeb a diwylliannau a dulliau unigol.



*Fideo o Jessica Crowe*

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

The Good Practice Exchange
Y Gyfnewidfa Arfer Da

# Good Practice Exchange at the Wales Audit Office
# Y Gyfnewidfa Arfer Da yn Swyddfa Archwilio Cymru

Encouraging public service improvement through shared learning and knowledge exchange
Yn annog gwelliant i wasanaethau cyhoeddus drwy gyfnewid gwybodaeth a dysgu ar y cyd

## Dydyn ni ddim yn Kansas mwyach…

**Jessica Crowe yw Cyfarwyddwr Gweithredol y Ganolfan Craffu Cyhoeddus, elusen annibynnol a sefydlwyd yn 2003 i hyrwyddo gwaith craffu ac atebolrwydd gwell wrth wneud penderfyniadau ar draws y sector cyhoeddus. Mae'r blog yn disgrifio'r digwyddiad fel 'trobwynt wrth adeiladu consensws newydd na ddylai craffu o safon wael neu weddol gael ei ganiatáu yng Nghymru mwyach.' Mae Jessica hefyd yn edrych ar y camau nesaf i graffu yng Nghymru, sy'n cynnwys 'Nodweddion Craffu Effeithiol' i reoleiddwyr a gwleidyddion.**



Ddydd Iau diwethaf, clywais weinidog llywodraeth leol yn dweud pethau fel hyn:
"craffu yw calon ac enaid llywodraethu da"
"craffu yw'r llywodraeth mewn llywodraeth leol"
"mae pawb o'r arweinyddiaeth i'r rheng flaen yn deall rôl a gwerth craffu… dyma'r amodau angenrheidiol i graffu allu ychwanegu gwerth "
"craffu yw'r gwasanaeth buddsoddi i arbed clasurol"

I ddarllenwyr yn Lloegr – na, doeddwn i heb gael fy hudo i ffwrdd dros yr enfys i wlad chwedlonol Oz. Y gweinidog dan sylw oedd Lesley Griffiths AC, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth yng Nghymru, yn rhoi'r prif anerchiad mewn cynhadledd ar graffu yng Nghaerdydd, a ddenodd 250 o bobl. Fel y bydd rhai ohonoch yn gwybod, dechreuodd y Ganolfan Craffu Cyhoeddus gyflwyno rhaglen newydd bwysig yng Nghymru yn gynharach eleni ar ran Llywodraeth Cymru, ac roeddem yn cefnogi'r gynhadledd hon fel rhan o'r rhaglen, ynghyd â'n partneriaid, Swyddfa Archwilio Cymru, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Ysgol Fusnes Caerdydd.

Blog llawn Jessica.

## Neges drydar cynrychiolydd




*Neges drydar CLILC*

# Atebolrwydd trwy wrando – Gwersi a ddysgwyd o Ymchwiliad Cyhoeddus Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford

**Cyflwyniad**

Cyflwyniad Peter Watkin Jones ar y gwersi a ddysgwyd.

### Peter Watkin Jones, Partner, Eversheds

Dyma Peter Watkin Jones yn trafod sut mae Ymchwiliad  Francis yn berthnasol i wasanaethau cyhoeddus Cymru, gan gynnwys y pwysigrwydd o fod yn agored, yn dryloyw a didwyll.



*Fideo o Peter Watkin Jones*

### Craffu tu hwnt i ffiniau

Gallwch hefyd weld crynodeb fideo o brif bwyntiau Peter.

## Negeseuon trydar


Elizabeth Evans
@CllrEvans
Follow
Changing culture essential in public services but not in isolation - all service deliverers need to be on board. #Staffordshire #scrutiny13
3:20 PM - 28 Nov 2013
2 FAVORITES

*Neges drydar Elizabeth Evans*


Alan Morris
@AlanMorrisWAO
Follow
Mid Staffs too ready to treat bad news as a 'one off' and not consider whether indicative of systemic problems. #scrutiny13
3:23 PM - 28 Nov 2013 Cardiff, United Kingdom
1 RETWEET

*Neges drydar Alan Morris*


Good Practice WAO
@GoodPracticeWAO
Follow
Peter Watkin Jones talks about the vicious cycle of "pressure, reaction, behaviour, habituation, mediocrity" #scrutiny13 #midstaffs
3:35 PM - 28 Nov 2013
1 RETWEET

*Neges drydar Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru*

# Enghreifftiau o sut mae Craffu wedi cael effaith

### Y Cynghorydd Peter Farley, Cadeirydd Craffu, Cyngor Sir Fynwy

Yn y clip yma mae'r Cynghorydd Peter Farley yn trafod y prif bwyntiau o'r sesiwn drafod, gan gynnwys pwysigrwydd ymgysylltu â'r cyhoedd fel ffordd o wella gwaith craffu, a'r gwerth o gynnwys y cyhoedd yng ngwaith y pwyllgorau craffu.



*Fideo o'r Cynghorydd Peter Farley*

### Dr Helen Paterson, Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Dyma Helen Paterson o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn trafod y prif bwyntiau o'r sesiwn drafod, gan gynnwys sut wnaeth pwyllgor economi'r sir cynnwys masnachwyr y farchnad yn ei waith craffu.



*Fideo o Dr Helen Paterson*

## Alison Ward, Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Yn y clip yma mae Alison Ward o Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn trafod sut mae'r cyngor wedi gwella eu craffu, gan symud i ffwrdd o wleidyddiaeth gwrthwynebus i er mwyn cael safbwynt ddeallus a thrylwyr i waith y cyngor.



*Fideo o Alison Ward*

## Dave McKenna, Rheolwr Craffu, Dinas a Sir Abertawe

Dyma Dave McKenna o Ddinas a Sir Abertawe yn trafod sut mai cyfranogiad pobl ifanc sydd wedi gadael gofal wedi arwain at graffu gwell a buddion ychwanegol ar gyfer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan.



*Fideo o Dave McKenna*

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

The Good Practice Exchange
Y Gyfnewidfa Arfer Da

## Good Practice Exchange at the Wales Audit Office
## Y Gyfnewidfa Arfer Da yn Swyddfa Archwilio Cymru

Encouraging public service improvement through shared learning and knowledge exchange
Yn annog gwelliant i wasanaethau cyhoeddus drwy gyfnewid gwybodaeth a dysgu ar y cyd

### Arloesi, rheoleiddio ac ymgysylltu: tair rôl newydd i graffu?

**Fe wnaeth Dave Mckenna, Rheolwr Craffu ar gyfer Dinas a Sir Abertawe, edrych ar y sefyllfa bresennol o graffu llywodraeth leol. Edrychodd ei flog ar fyd newidiol craffu, gan gynnwys ei rôl mewn arloesi, rheoleiddio ac ymgysylltu, yn ogystal â rôl craffu ei hun.**



Wedi tyfu ac yn ceisio darganfod ei ffordd; mae'n teimlo fel bod craffu llywodraeth leol wrth y groesffordd. Roedd y byd cafodd craffu ei eni iddi yn wahanol iawn ac mae angen i graffu addasu i'r amgylchiadau heriol sydd o'i gwmpas heddiw. Ond sut ddylai newid? Dwi eisiau cyfeirio at dair rôl newydd fel ffyrdd posib o fynd; rheini yw'r rolau arloesedd, rheoleiddio ac ymgysylltu.

**Tyfu i fyny mewn Byd sy'n Newid**

Yn ystod y cyfnod yn arwain i fynnu at beth sy'n addo i fod yn gynhadledd craffu cyntaf mawr hynod o arwyddocaol yng Nghymru, mae'n amser da i feddwl am sut allai craffu edrych yn y dyfodol. Dwi'n hoffi'r thema 'i gyd wedi tyfu i fyny', wedi'r cyfan, mae craffu llywodraeth gyhoeddus, a gafodd ei eni o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 nawr yn ei arddegau. Ond gawn ni beidio anghofio bod pobl yn eu harddegau ddim wedi tyfu i fynnu yn hollol eto; efallai yn fwy annibynnol a chyfrifol mewn rhai ffyrdd, ond heb ymddiriedolaeth hollol yn eraill.

Mae craffu wedi dod yn bell iawn mewn 13 mlynedd ac mae llawer o esiamplau ardderchog o graffu yn gwneud gwahaniaeth. Ond, hyd yn oed os bod craffu wedi aeddfedu fel swyddogaeth (a dydw i ddim yn siŵr ei fod), dylai'r ffaith bod byd heddiw mor wahanol i'r un a gafodd craffu ei eni iddi achosi i ni adlewyrchu.

Blog llawn Dave.

**Cyflwyniad**
Cyflwyniad Dave McKenna ar effiath craffu.

# Rôl Graffu y Cynghorydd Rhwydwaith

**Beth yw nod yr adran hon?**
Nod yr adran hon yw i chi werthfawrogi mai nid dim ond sianel gyfathrebu arall yw cyfryngau cymdeithasol. Mae craffu yn le perffaith i ddechrau datblygu perthynas rhwng y cynghorydd rhwydwaith a'r cyhoedd.

**Pwy sy'n rhannu'r wybodaeth yma?**
Catherine Howe, Prif Weithredwr Public-I

**Sut caiff y wybodaeth yma ei rhannu?**
Mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu drwy gyflwyniad PowerPoint, blog a ysgrifennwyd ar ôl y gynhadledd yn rhoi trosolwg o'r ddau weithdy; clip fideo yn darparu crynodeb o neges allweddol y cyflwyniad, a negeseuon trydar cynrychiolwyr mewn cyswllt â'r gweithdy.

## Cyflwyniad

Cyflwyniad Catherine Howe ar rôl y Cynghorydd rhwydwaith.

### Catherine Howe, Prif Swyddog Gweithredol, Public-i

Dyma Catherine Howe o Public-i yn trafod sut mae cymdeithas yn newid yn seiliedig ar ddatblygiadau mewn technoleg, a beth mae hynny'n ei olygu ar gyfer y gymuned gwasanaethau cyhoeddus.




*Fideo o Catherine Howe*

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

The Good Practice Exchange
Y Gyfnewidfa Arfer Da

# Good Practice Exchange at the Wales Audit Office
# Y Gyfnewidfa Arfer Da yn Swyddfa Archwilio Cymru

Encouraging public service improvement through shared learning and knowledge exchange
Yn annog gwelliant i wasanaethau cyhoeddus drwy gyfnewid gwybodaeth a dysgu ar y cyd

## Rôl Graffu y Cynghorydd Rhwydwaith

**Bu Catherine Howe o Public-I yn blogio am ei phrofiadau hi o'r gynhadledd craffu. Fe edrychodd Catherine ar yr angen am 'gynrychiolwyr rhwydweithiol, agored, cyd-gynhyrchiol a rhywun sy'n gyfforddus yn y byd digidol', ac mae'n gofyn sut y bydden ni'n dylunio cymdeithas ddemocrataidd i gymdeithas rwydweithiol?**

Tuag at ddiwedd blwyddyn ddiwethaf mi wnes i redeg un neu ddau o sesiynau Rhwydwaith Cynghorydd mewn cynhadledd Craffu wych a gafodd ei drefnu'n dda yng Nghymru. Un o'r pethau sy'n creu argraff arnaf i pan rwy'n ymweld â Chymru yw'r ymrwymiad gwirioneddol tuag at ddysgu amdano a ffeindio arfer da o fewn llywodraeth genedlaethol a lleol. Un o'r ffyrdd mae'r gynhadledd hon yn gwneud hyn yw trwy ofyn i bob un o'r hwyluswyr i gyfrannu blogbost dilynol. Dyma, yn hwyr braidd, fy ymdrech i.

Yn fy marn i o leiaf, y peth cyntaf i nodi yw'r cyswllt cryf sydd rhwng y meddylfryd y tu ôl i'r Cynghorydd Rhwydwaith a'r cyfleoedd mae'r swyddogaeth graffu yn cynnig i ffeindio ffyrdd o wneud pethau'n wahanol. Mae hyn yn hyd yn oed yn fwy gwir yng Nghymru, lle mae Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wedi agor i fyny sut gallwch gyrchu'r swyddogaeth craffu o fewn llywodraeth leol. Fel canlyniad, mae llawer o waith yn cael ei wneud yng Nghymru i archwilio ffyrdd y gallwn gynnwys y cyhoedd yn well yn y broses o atebolrwydd.


Yr hyn rwy'n gwerthfawrogi am y gynhadledd - ac sydd wedi aros gyda mi - oedd y pwyslais ar yr angen i greu diwylliant o atebolrwydd. Un o'r sesiynau mwyaf pwerus i mi oedd Ymchwiliad Cyhoeddus Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ganol Swydd Stafford, gan fod cymaint o'r methiannau yn dod lawr i ymddygiad sefydliadol yn hytrach na jyst y broses neu ddata.

Blog llawn Catherine.

## Negeseuon trydar cynrychiolwyr


Dave Mckenna
@Localopolis
Follow
@curiousc - Networked is as much about the behaviour as the tech #ldbytes #scrutiny13 #localgovdigital
12:16 PM - 28 Nov 2013
1 RETWEET


*Neges drydar Dave McKenna*


Dave Mckenna
@Localopolis
Follow
.@curiousc - we have passed the point where councillors can engage without digital # #scrutiny13 #ldbytes #localgovdigital
12:22 PM - 28 Nov 2013
1 RETWEET

*Neges drydar Dave McKenna*


Alan Morris
@AlanMorrisWAO
Follow
@curiousc - find the social media platform or tool that suits your communication style. #scrutiny13
2:31 PM - 28 Nov 2013 Cardiff, United Kingdom
1 RETWEET

*Neges drydar Alan Morris*


Alan Morris
@AlanMorrisWAO
Follow
@curiousc - how do we adapt protocols and procedures to embrace social media? May need some difficult conversations. #scrutiny13
2:40 PM - 28 Nov 2013 Cardiff, United Kingdom

*Neges drydar Alan Morris*


Dave Mckenna
@Localopolis
Follow
Delegate: "As a result of today I will tweet more" #scrutiny13
4:11 PM - 28 Nov 2013

*Neges drydar Dave McKenna*

# Ymgysylltu â'r Cyhoedd ym maes Craffu

**Beth yw nod yr adran hon?**
Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi datblygu pecyn Ymgysylltu â'r Cyhoedd a ellir ei addasu i gyd-fynd ag anghenion Aelodau Llywodraeth Leol.

**Pwy sy'n rhannu'r wybodaeth yma?**
Virginia Hawkins a Kevin Davies, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Sut caiff y wybodaeth yma ei rhannu?**
Fersiwn ddiweddaraf o'r pecyn cymorth; blogiau a ysgrifennwyd cyn ac ar ôl y gynhadledd Craffu; clipiau fideo sy'n rhoi crynodeb o neges(euon) allweddol a negeseuon trydar gan gynrychiolwyr yn ymateb i'r gweithdy a blogiau.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

The Good Practice Exchange
Y Gyfnewidfa Arfer Da

**Good Practice Exchange at the Wales Audit Office**
**Y Gyfnewidfa Arfer Da yn Swyddfa Archwilio Cymru**

Encouraging public service improvement through shared learning and knowledge exchange
Yn annog gwelliant i wasanaethau cyhoeddus drwy gyfnewid gwybodaeth a dysgu ar y cyd

## Ymgysylltu â'r Cyhoedd ym maes Craffu

**Mae'r blog yma'n ymwneud â sut mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn annog mwy o gyfranogiad ym mhwyllgor craffu. Rydym yn teimlo gallai'r dulliau hyn gael eu haddasu i weddu i ymagweddau Llywodraeth Leol a gwasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru. Mae'r blog yma'n edrych ar sicrhau ein bod ni'n gweithio mewn ffyrdd sy'n addas ar gyfer cyfranogwyr a sut bydd y gweithdy yn annog rhannu arfer da.**

Ar ddydd Iau 28 Tachwedd, bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cymryd rhan yng Nghynhadledd Graffu Cymru gyfan a gaiff ei threfnu gan Swyddfa Archwilio Cymru yn Stadiwm Swalec, Caerdydd. Cynhelir dau weithdy i drafod y mater o 'gymryd rhan mewn gwaith craffu' a gaiff ei arwain gan Kevin Davies, sy'n aelod o adran Gyfathrebu'r Cynulliad, gyda'r nod o annog rhagor o bobl i gymryd rhan mewn gwaith craffu pwyllgorau, a Virginia Hawkins, sydd wedi gweithio yn y Cynulliad ers 10 mlynedd, ac sydd wedi bod yn rhan o bob agwedd ar waith craffu yn ystod y cyfnod hwnnw, gan gynnwys cyfnod fel Clerc pwyllgor, cyfnod yn y Gwasanaeth Ymchwil a chyfnod gyda'r Adran Gyfathrebu.



Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi newid y ffordd y mae'n cyfathrebu, er mwyn canolbwyntio llawer mwy ar y gwaith y mae'r Cynulliad yn ei wneud ar y pryd, a siarad â grwpiau penodol o bobl sy'n debygol o ddangos diddordeb mewn pwnc, gan weithredu fel cyfrwng i gael rhagor o bobl i gymryd rhan mewn gwaith craffu. Wrth wneud hynny, rydym yn defnyddio pecyn cymorth mewnol ar-lein, sy'n amlinellu'r ffyrdd y gallwn ymgysylltu â phobl y tu hwnt i ffyrdd traddodiadol o gyfrannu at waith craffu yn y Cynulliad, sef drwy ysgrifennu at y pwyllgor neu drwy gael gwahoddiad i roi tystiolaeth.

Blog llawn.

**Cyflwyniad**
Cyflwynaid Virginia Hawkins ar ymgysylltu â'r cyhoedd.

## Virginia Hawkins, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dyma Virginia Hawkins o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn trafod eu gwaith ar ymgysylltu â'r cyhoedd, gan gynnwys sut mae rhaid I bobl prynu-i-mewn I'r ddiwylliant er mwyn gweithio'n effeithioll, ond mae'r manteision yn fwy na'r ymdrech a'r adnoddau sydd angen.



*Fideo o Virginia Hawkins*

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

The Good Practice Exchange
Y Gyfnewidfa Arfer Da

## Good Practice Exchange at the Wales Audit Office
## Y Gyfnewidfa Arfer Da yn Swyddfa Archwilio Cymru

Encouraging public service improvement through shared learning and knowledge exchange
Yn annog gwelliant i wasanaethau cyhoeddus drwy gyfnewid gwybodaeth a dysgu ar y cyd

### Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Llawlyfr Ymgysylltu â'r Cyhoedd



**Mae Kevin Davies yn adlewyrchu ar weithdy Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a wnaeth edrych ar rôl ymgysylltiad cyhoeddus ym maes craffu. Mae'r blog yn edrych ar yr hyn a wnaethant ar y diwrnod, sut wnaethon nhw gofyn barn am faterion dilynol drwy Twitter, a'r pecyn cymorth ymgysylltu â'r cyhoedd.**

Mae'n deg dweud i Virginia a minnau dreulio llawer o amser yn trafod y ffordd y byddem yn rhedeg ein gweithdy, a gallem yn hawdd fod wedi meddwl am ddigon i lenwi diwrnod, felly roedd cyfyngu hyd y gweithdy i awr yn dipyn o her.

Penderfynwyd y dylai'r gweithdai ganolbwyntio ar yr egwyddor o gymryd rhan yn y gwaith craffu, ac ar rannu rhai o'n profiadau gyda'r gynulleidfa. Roeddem yn teimlo hefyd ei bod yn bwysig iawn i bobl gael cyfle i rannu syniadau â'i gilydd yn y gweithdy. Gwnaethom gytuno y dylai ein gweithdai gael eu gweld fel man cychwyn, ac y byddai'r blog hwn yn ffordd dda o lenwi'r bylchau, felly bant â'r cart…

Blog llawn gan Kevin.

## Negeseuon trydar



Meic
@Palmeriaid
Follow

Hardworking groups discuss benefits & barriers of public engagement in scrutiny #scrutiny13

2:44 PM - 28 Nov 2013

*Neges drydar Palmeriaid*

stuart hodges
@stu_hodges
Follow

Importance of scrutiny focus outlined by @AssemblyWales: both the question asked and the specific audience you need to hear from. #scrutiny13

12:20 PM - 28 Nov 2013

*Neges drydar Stuart Hodges*

Steve Barry
@SteveBarryWAO
Follow

Interesting ideas from the public engagement workshop. Going to people not expecting them to come to you and always feedback #scrutiny13

4:16 PM - 28 Nov 2013

*Neges drydar Steve Barry*

# Tystiolaeth o'r Effaith: Gwneud y gorau o'ch buddsoddiad ym maes Craffu

**Beth yw nod yr adran hon?**
Mae'r adran hon yn ymwneud â datblygu eich dealltwriaeth o fodel 'Enillion ar Fuddsoddiad' a ddatblygwyd gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus; yn ogystal â pham y datblygwyd y model, sut a ble mae wedi cael ei ddefnyddio ac yn rhoi enghraifft o'r effaith wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

**Pwy sy'n rhannu'r wybodaeth yma?**
Brenda Cook, Canolfan Craffu Cyhoeddus

**Sut caiff y wybodaeth yma ei rhannu?**
Mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu drwy gyflwyniad PowerPoint, clip fideo yn darparu crynodeb o'r neges allweddol o'r cyflwyniad a negeseuon trydar cynrychiolwyr mewn perthynas â'r gweithdy.

## Cyflwyniad

Cyflwyniad Brenda Cook ar ddarparu tystiolaeth o'r effaith.

### Brenda Cook, Canolfan Craffu Cyhoeddus

Dyma Brenda Cook o'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn trafod sut gall model dychwelyd ar fuddsoddiad a ddatblygwyd gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus cael ei ddefnyddio o amgylch anghydraddoldebau iechyd.





*Fideo o Brenda Cook*

## Negeseuon trydar




*Neges drydar Tanwen Haf*




*Neges drydar Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru*

# Dileu'r Ofn o Graffu ar Gyllideb

**Beth yw nod yr adran hon?**
Mae'r adran hon yn ymwneud ag ennill gwell ddealltwriaeth o'r broses o graffu ar gyllideb a rhoi hyder i chi i gwestiynu, meithrin gwydnwch wrth gwestiynu a cheisio deall cynigion ar gyfer cyllidebau.

**Pwy sy'n rhannu'r wybodaeth yma?**
John Dwight, Swyddfa Archwilio Cymru a Chris Tidswell, CIPFA

**Sut caiff y wybodaeth yma ei rhannu?**
Mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu drwy gyflwyniad PowerPoint a clip fideo yn darparu crynodeb o neges allweddol y cyflwyniad.

**Cyflwyniad**
Cyflwyniad John Dwight a Chris Tidswell ar graffu ar gyllidebau.

## John Dwight, Swyddfa Archwilio Cymru

Yn y clip yma mae John Dwight o Swyddfa Archwilio Cymru a Chris Tidswell o Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn trafod y pwysigrwydd o adeiladu ymddiriedaeth, a bod yr aelodau'n datblygu dealltwriaeth dda o'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn i swyddogion ddarparu'r wybodaeth ansawdd da sydd angen.




*Fideo o John Dwight*

# Defnyddio Craffu Seiliedig ar Wybodaeth/Tystiolaeth

**Beth yw nod yr adran hon?**
Byddwch yn ennill gwybodaeth am adnabod pa mor ddefnyddiol yw data a gwybodaeth wedi'u cynnwys mewn adroddiadau ac yn dysgu sut i ofyn cwestiynau perthnasol.

**Pwy sy'n rhannu'r wybodaeth yma?**
Huw Rees, Swyddfa Archwilio Cymru a Simon Brown, Clive Phillips, Gerard Kerslake a Huw Davies, Estyn

**Sut caiff y wybodaeth yma ei rhannu?**
Mae'r wybodaeth yn cael ei rhannu drwy gyflwyniad PowerPoint, blog wedi'i ysgrifennu ar ôl y gynhadledd yn cynnwys trosolwg o'r gweithdy; clip fideo yn darparu crynodeb o'r prif neges(euon) o'r cyflwyniad a negeseuon trydar yn ymateb i'r gweithdy.




**Fe wnaeth Huw Rees blogio ar ganfod pa mor ddefnyddiol yw'r data a gwybodaeth sydd mewn adroddiadau a nodi pa mor ddefnyddiol yw data a'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiadau a'u galluogi i ofyn cwestiynau perthnasol. Trafododd Huw sut mae craffu yn wynebu amser heriol a sut fydd gweithdai yn y gynhadledd yn annog rhannu syniadau.**



Bydd ymhell dros 200 o gynrychiolwyr o'r Gymuned Archwilio yng Nghymru yn mynychu Cynhadledd 'Goleuni ar Graffu', sydd yn cael ei chynnal ar 28 Tachwedd 2013 yn y Stadiwm Swalec yng Nghaerdydd.

Mae'r gynhadledd yn cael ei chynnal ar y cyd rhwng Swyddfa Archwilio Cymru, y Ganolfan Craffu Gyhoeddus, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru ac Ysgol Fusnes Caerdydd. Mae'n gwneud synnwyr i'r holl bartneriaid sy'n ymwneud â gwella craffu yng Nghymru uno i gynnal y digwyddiad yma. Mae mynychwyr a ni yn rhannu pwrpas cyffredin, felly mae hwn yn gyfle unigryw i ddod at ein gilydd i fanteisio ar ein gwybodaeth a'n profiad, ac i rannu a dysgu o syniadau ac atebion i wella Craffu yng Nghymru.

Blog llawn Huw.

## Simon Brown, Estyn

Yn y fideo yma mae Simon Brown o Estyn a Huw Rees o Swyddfa Archwilio Cymru yn trafod eu gweithdy, a oedd yn ail-greu cyngyfarfod craffu er mwyn rhoi cyfle i fynychwyr edrych ar yr adroddiadau enghreifftiol, eu herio nhw a'u defnyddio i ofyn y cwestiynau cywir i gyfranogwyr.



*Fideo o Simon Brown*

## Negeseuon trydar cynrychiolwyr yn ymateb i'r gweithdy




*Neges drydar Bethan Davies*




*Neges drydar Bethan Davies*




*Neges drydar Bethan Davies*

# Craffu Cydweithredol: Myfyrdodau o Ymarfer

**Beth yw nod yr adran hon?**
Mae'r adran hon yn ymwneud â rhannu dysgu o astudiaeth ddiweddar ar graffu ar y cyd.

**Pwy sy'n rhannu'r wybodaeth hon?**
James Downe a Rachel Ashworth, Ysgol Fusnes Caerdydd a chynrychiolwyr o Prosiect Gwyrdd.

**Sut caiff y wybodaeth hon ei rhannu?**
Mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu drwy gyflwyniad PowerPoint, blog a ysgrifennwyd ar ôl y gynhadledd yn cynnwys trosolwg o'r gweithdy; clip fideo yn darparu crynodeb o'r neges(euon) allweddol o'r cyflwyniad a negeseuon trydar gan gynrychiolwyr yn ymateb i'r gweithdy.

Bydd yr adnodd hwn yn rhannu'r hyn a ddysgwyd o astudiaeth ddiweddar ar graffu ar y cyd ac yn gwella'r ddealltwriaeth o'r buddion a'r heriau o weithio ar y cyd drwy astudiaeth achos o Brosiect Gwyrdd.

## Cyflwyniad

Cyflwyniad James Downe ar graffu ar y cyd.

### James Downe, Ysgol Fusnes Caerdydd

Dyma James Downe o Ysgol Fusnes Caerdydd yn trafod pwyntiau allweddol y gweithdy, gan gynnwys adnoddau ariannol ac amser swyddog penodedig.



*Fideo o James Downe*

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

The Good Practice Exchange
Y Gyfnewidfa Arfer Da

**Good Practice Exchange at the Wales Audit Office**
**Y Gyfnewidfa Arfer Da yn Swyddfa Archwilio Cymru**

Encouraging public service improvement through shared learning and knowledge exchange
Yn annog gwelliant i wasanaethau cyhoeddus drwy gyfnewid gwybodaeth a dysgu ar y cyd

## Craffu Cydweithredol: Myfyrdodau o Ymarfer

**Cawsom air gyda Hazel Ilett, Rheolwr Craffu, Cyngor Sir Fynwy a Jonathan Jones, Rheolwr Craffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn dilyn y gynhadledd Goleuni ar Graffu, a gofynnwyd am eu hymateb i graffu cydweithredol. Maen nhw'n edrych ar yr heriau, yr angen i gael rhywun penodol i weithio ar y prosiect, a'r pwysigrwydd o ymddiriedaeth a datblygu perthnasau.**

Mae craffu cydweithredol yn gymhleth … ac mae craffu ar y cyd ar bwnc dadleuol iawn, sef trin gwastraff trefol, hyd yn oed yn fwy cymhleth – doeddwn ni ddim rili yn gwybod pa mor gymhleth y gellid craffu ar y cyd bod! Er hynny rydym wedi clywed mai ein prosiect yw'r prosiect mwyaf arwyddocaol ar graffu ar y cyd a gynhaliwyd yng Nghymru (ac mae'n debyg yn Lloegr hyd yma), felly mae'n hen bryd i ni adlewyrchu 'nôl arno a rhannu ychydig o wersi allweddol gydag eraill sydd eisiau craffu ar y cyd ….. ac wrth gwrs, mae synnwyr trannoeth yn beth arbennig!

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru comisiynu Ysgol Fusnes Caerdydd (Canolfan Ymchwil Llywodraeth Leol a Rhanbarthol) i ddarparu briff ymchwil mawr ar ddatblygu diwylliant craffu ar y cyd mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru.


Os mai jyst un neges 'da chi'n cymryd o'n gweithdy ni, hoffwn ni eich bod chi'n cymryd yr un 'ma – gallwch gael y trefniant ffurfiol perffaith a'r holl brotocolau yn y byd, ond eto gall craffu ar y cyd cwympo yn y camau cyntaf. Rhaid bod yna lot o ymdrech bersonol i ddod ag aelodau at ei gilydd yn anffurfiol er mwyn ddatblygu ymdeimlad o 'hunaniaeth craffu ar y cyd' i graffu fod yn llwyddiannus. Os da chi ddim yn magu 'diwylliant craffu ar y cyd' a goresgyn yr holl heriau gwleidyddol o'ch blaen chi ar eich llwybr i lwyddiant, bydd craffu cydweithredol yn rhywbeth sydd 'yma heddiw, wedi mynd yfory'.

Blog llawn gan Hazel a Jonathan.

## Negeseuon trydar cynrychiolwyr yn ymateb i'r gweithdy


Alan Morris
@AlanMorrisWAO
Follow
Colloborative scrutiny workshop - Prosciect Gwyrdd, an example of collaborative scrutiny in practice. #scrutiny13
12:19 PM - 28 Nov 2013 Cardiff, United Kingdom

*Neges drydar Alan Morris*


Good Practice WAO
@GoodPracticeWAO
Follow
Some good questions on collaborative scrutiny - what happens to your efforts if a local gov reorganisation happens? #scrutiny13
2:45 PM - 28 Nov 2013

*Neges drydar Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru*


Elizabeth Evans
@CllrEvans
Follow
#scrutiny13 discussed cross council collaborations; strong case for partnership working but never underestimate cultural differences!
3:14 PM - 28 Nov 2013
1 FAVORITE

*Neges drydar Elizabeth Evans*

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

The Good Practice Exchange
Y Gyfnewidfa Arfer Da

## Good Practice Exchange at the Wales Audit Office
## Y Gyfnewidfa Arfer Da yn Swyddfa Archwilio Cymru

Encouraging public service improvement through shared learning and knowledge exchange
Yn annog gwelliant i wasanaethau cyhoeddus drwy gyfnewid gwybodaeth a dysgu ar y cyd

### Beth all ddigwydd yn y dyfodol?

**Dyma Rebecca David-Knight, Rheolwr Rhaglen Craffu Cymru ar gyfer y Ganolfan Craffu Cyhoeddus, yn edrych ar bwysigrwydd gwrando gweithredol wrth graffu. Mae Rebecca yn esbonio sut mae tîm hyfforddiant yn y gweithle y Samariaid wedi helpu i'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus i archwilio technegau fel eglurhad, crynodeb, a defnydd gofalus o-gwestiynau agored.**

**Beth ydych chi'n ei ddweud go iawn?" – Sicrhau trosolwg a chraffu effeithiol trwy wrando gweithredol**




Mae'r gallu i gwestiynu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn agored yn fynegiant cryf o ddemocratiaeth. Ar lawer ystyr, gellir dweud bod y weithred o holi a stilio'r sawl sydd mewn awdurdod yn diffinio ac yn cynrychioli rôl herio trosolwg a chraffu, yn enwedig os gwneir hynny yn yr arena gyhoeddus.

Serch hynny, i lawer o bwyllgorau trosolwg a chraffu, mae mwy i gwestiynu na dim ond herio er mwyn herio – mae'n ffordd o sbarduno gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus ac o sicrhau bod y system o wneud penderfyniadau'n gynhwysol, yn gadarn ac yn atebol.

Er bod pwyslais mawr ar ddefnyddio cwestiynau wrth graffu, dydw i ddim bob amser yn meddwl bod digon o sylw'n mynd i'r broses o ateb. Wedi'r cyfan, mae'n fater o roi a derbyn ac mae'n bwysig cadw'r ddysgl yn wastad rhwng y ddau. I ddyfynnu Mark Twain, "If we were supposed to talk more than we listen, we would have two tongues and one ear."

Blog llawn gan Rebecca.

## Tim Gilling, Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol, Ganolfan Craffu Cyhoeddus

Dyma Tim Gilling o'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn trafod sut bydd craffu da yn hanfodol yn y blynyddoedd i ddod, gan fydd yn chwarae rhan hanfodol mewn y ffordd mae penderfyniadau yn cael eu gwneud ynghylch buddsoddiad mewn gwasanaeth cyhoeddus.



*Fideo o Tim Gilling*

## Negeseuon trydar cynrychiolwyr yn ymateb i'r gweithdy




*Neges drydar Dave McKenna*




*Neges drydar Alan Morris*

# Adnoddau defnyddiol eraill

Bwrdd Pintrest Goleuni ar Graffu
http://www.pinterest.com/goodpracticewao/goleuni-ar-graffu-gwneud-y-mwyaf-och-buddsoddiad/

Ydy craffu ar fin dod i oed …… ?
http://goodpracticeexchange.wordpress.com/2013/09/13/ydy-craffu-ar-fin-dod-i-oed/

Craffu Cymdeithasol
http://goodpracticeexchange.wordpress.com/2013/09/17/craffu-cymdeithasol/

Goleuadau, camera, amdani!
http://goodpracticeexchange.wordpress.com/2013/10/02/goleuadau-camera-amdani/

Ymestyn Allan, Tynnu i Mewn
http://goodpracticeexchange.wordpress.com/2013/10/23/ymestyn-allan-tynnu-i-mewn/

Synfyfyrio gan Blentyn Bach ar Twitter
http://goodpracticeexchange.wordpress.com/2013/11/05/synfyfyrio-gan-blentyn-bach-ar-twitter/

All along the watchtower – #Scrutiny13
http://goodpracticeexchange.wordpress.com/2013/11/19/all-along-the-watchtower-scrutiny13/

Craffu Celtaidd – rhannu gwersi ar draws Môr Iwerddon
http://goodpracticeexchange.wordpress.com/2013/12/16/craffu-celtaidd-rhannu-gwersi-ar-draws-mor-iwerddon/

Y Flwyddyn y daeth Craffu yn gymdeithasol – Ymgyrch Cyfryngau Cymdeithasol y Gynhadledd Craffu
http://goodpracticeexchange.wordpress.com/2014/01/09/y-flwyddyn-y-daeth-craffu-yn-gymdeithasol-ymgyrch-cyfryngau-cymdeithasol-y-gynhadledd-craffu-alan-morris/

Scotland's public sector workforce: Good practice guide
http://www.audit-scotland.gov.uk/docs/central/2013/nr_131128_public_sector_workforce_guide.pdf

Craffu Da? Cwestiwn Da!
http://www.wao.gov.uk/cy/cyhoeddi/craffu-da-cwestiwn-da-astudiaeth-wella-archwilydd-cyffredinol-cymru-craffu-mewn-llywodraeth

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon